# Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd

## Canllawiau drafft

Rhif y ddogfen ganllaw: 268/2021
Dyddiad cyhoeddi: 28 Ionawr 2021
Yn disodli'r Trefniadau drafft gwerthuso a gwella (atebolrwydd) ar gyfer Cymru (Chwefror 2019)

# Canllawiau gwella ysgolion

**Cynulleidfa**

Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys meithrinfeydd a byrddau rheoli unedau cyfeirio disgyblion o fewn awdurdodau lleol); penaethiaid a staff ysgolion; consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol; awdurdodau esgobaethol; Estyn; undebau addysg a phartïon eraill â diddordeb.

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau anstatudol ar wella ysgolion ac yn nodi'r fframwaith newydd ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd, a sut i'w roi ar waith. Mae'r ddogfen yn rhoi canllaw i ysgolion a'r rhai sy'n eu cefnogi ar ymgorffori trefniadau gwella effeithiol wrth roi'r cwricwlwm newydd a'i ddiwygiadau cysylltiedig ar waith.

**Y camau y mae angen eu cymryd**

Bydd yn rhaid i ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac Estyn ystyried y canllawiau hyn wrth ymdrin â threfniadau gwella ysgolion.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost : Gwellaysgolion@llyw.cymru

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

| | |
|---|---|
| **Copïau ychwanegol** | Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn https://llyw.cymru/canllawiau-gwella-ysgolion |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014;<br>Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007 – fel y'u diwygiwyd;<br>Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 – fel y'u diwygiwyd;<br>Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 – fel y'u diwygiwyd; Deddf Addysg 1996;<br>Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;<br>Deddf Addysg 2005;<br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;<br>Bil y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru);<br>Ysgolion sy'n achosi pryder – canllawiau statudol i ysgolion ac awdurdodau lleol: dogfen ganllaw rhif: 222/2017.<br>Deddf Cydraddoldeb 2010<br>Yr hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwr addysg yng Nghymru: Ysgolion<br>Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr<br>Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg – canllawiau anstatudol – drafft<br>Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019. |

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 1
Cwricwlwm i Gymru
Canllawiau gwella ysgolion

**Fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd** 5

**Gwybodaeth a thystiolaeth** 8
Yr hyn y mae disgwyl i wahanol gyrff yn y system addysg ei wneud

**Hunanwerthuso er mwyn gwella'n barhaus** 13
Rôl hunanwerthuso
Yr hyn y mae disgwyl i wahanol gyrff yn y system addysg ei wneud

**Crynodeb o flaenoriaethau gwella a chynllun datblygu** 16
Rôl cynllunio gwelliannau
Yr hyn y mae disgwyl i wahanol gyrff yn y system addysg ei wneud

**Cymorth, cydweithio a gwella** 20
Yr hyn y mae disgwyl i wahanol gyrff yn y system addysg ei wneud
Cymorth i ysgolion gan gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol
Cymorth rhwng ysgolion
Ysgolion sy'n achosi pryder

**Atebolrwydd** 25
Rôl atebolrwydd
Yr hyn y mae disgwyl i wahanol gyrff yn y system addysg ei wneud

**Arolygiadau a chyngor** 29
Estyn
Arolygiadau Adran 50 o ysgolion â chymeriad crefyddol

**Atodiadau**

**A – Rolau a chyfrifoldebau mewn system hunanwella** 31

**B - Adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol** 35

**C - Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014 – Atodlen** 36

**D - Egwyddorion adolygu gan gymheiriaid** 37

# Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd

## Cyflwyniad

### *Cwricwlwm i Gymru*

Bydd cwricwlwm newydd i ysgolion a lleoliadau a ariennir nas cynhelir yng Nghymru o fis Medi 2022, sef y Cwricwlwm i Gymru (y cyfeirir ato yn y canllawiau hyn fel ‘y cwricwlwm newydd’). Bwriedir i'r cwricwlwm newydd baratoi pobl ifanc i ffynnu mewn dyfodol lle y bydd sgiliau digidol, addasrwydd a chreadigrwydd – yn ogystal â gwybodaeth – yn hollbwysig.

Wrth wraidd y cwricwlwm newydd mae **pedwar diben**: y weledigaeth a'r dyhead a rennir ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Nod cwricwlwm ysgol yw cefnogi ei dysgwyr i ddod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a’u gwaith;
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a’r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy’n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Un nodwedd ddiffiniol arall o fframwaith y cwricwlwm newydd yw'r pwyslais a roddir ar **gynnydd dysgwyr**, wedi'i ategu gan drefniadau asesu sy'n galluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol,  gan ystyried eu hanghenion amrywiol.

Bydd cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni ein nodau fel cenedl fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae pwysigrwydd sylfaenol **hybu llesiant** yn thema sydd i'w gweld ym mhob rhan o'r cwricwlwm newydd: nid yw byth yn ystyriaeth eilaidd. Caiff hyn ei atgyfnerthu drwy gwblhau'r gwaith o lunio fframwaith Cymru gyfan ar gyfer **dull ysgol gyfan** o ymdrin ag iechyd a lles. Bydd y Cwricwlwm newydd hefyd yn cefnogi un o nodau llesiant arall y Ddeddf sef ‘Cymru a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynu. Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr yw ein strategaeth ar gyfer gwireddu’r uchelgais hwn.

‘Trefniadau gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i gefnogi system o hunanwella’ yw un o bedwar amcan galluogi'r cwricwlwm newydd. Er mwyn bod yn llwyddiannus, mae'n hollbwysig bod pob agwedd ar y system ysgolion yn gyson â'r cwricwlwm newydd a'r egwyddorion sy'n sail iddo, ac yn eu cefnogi. Roedd adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) i Lywodraeth Cymru, ‘Achieving the new curriculum for Wales’, yn pwysleisio'r pwynt hwn. Mae'r adroddiad yn datgan yn glir bod angen i'r fframwaith atebolrwydd, ynghyd â chymwysterau gadael ysgol, fod yn gyson ag egwyddorion y cwricwlwm newydd er mwyn osgoi'r risg y bydd mesurau atebolrwydd a chymwysterau nad ydynt yn gyson â'r egwyddorion hynny danseilio'r cwricwlwm.

Felly, nod y canllawiau hyn yw ysgogi ymddygiadau sy'n cefnogi ac yn galluogi ein gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd mewn ffordd gadarnhaol, gan gynnwys lle canolog y pedwar diben, y pwyslais ar gynnydd dysgwyr a phwysigrwydd llesiant.

### *Canllawiau gwella ysgolion*[1]

Diben cyffredinol gwella ysgolion yw helpu ysgolion i roi'r profiadau a'r deilliannau dysgu gorau posibl i ddysgwyr. Yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd, nod y canllawiau hyn yw meithrin trefniadau gwella ysgolion cynaliadwy drwy fframwaith clir ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.

O fewn y fframwaith hwn, ceir gwahaniaeth clir rhwng **gweithgareddau gwerthuso a gwella** ac **atebolrwydd.** Dylai'r rhan fwyaf o'r egni a'r ffocws yn y system fod ar wella ysgolion, wedi'i arwain gan waith hunanwerthuso, cynllunio gwelliannau[2] a chymorth effeithiol ym mhob ysgol. Fel rhan o'r gwaith o werthuso a gwella, dylai fod gan ymarferwyr ac arweinwyr ysgolion gymorth a hyder i ddysgu a gwella eu harferion yn barhaus. Bydd hyn yn eu galluogi i ffynnu mewn amgylchedd cefnogol a chydweithredol a fydd yn codi safonau ac yn sicrhau y gall pob person ifanc gyflawni ei botensial.

Wrth wraidd y trefniadau newydd mae **hunanwerthuso** cadarn a pharhaus gan ysgolion. Mae ein harolygiaeth, Estyn, wedi nodi bod hunanwerthuso yn agwedd ar arweinyddiaeth ysgolion lle mae angen gwella ar hyn o bryd. I'r perwyl hwn, rydym wedi datblygu adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol a fydd yn helpu ysgolion i gyflawni gwaith hunanwerthuso cadarn sy'n seiliedig ar ymholi.

Caiff gwaith hunanwerthuso effeithiol ei ategu gan ddeialog broffesiynol rhwng ysgolion, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol lle y bônt yn berthnasol, a chonsortia rhanbarthol, i gytuno ar **flaenoriaethau gwella ysgolion a'r cymorth a fydd ar gael iddynt**. Yn seiliedig ar hyn, bydd gan bob ysgol Gynllun Datblygu Ysgol[3] unigol y bydd yn gweithio tuag ato. Wrth wraidd y trefniadau bydd amrywiaeth eang o wybodaeth o ansawdd da am ysgolion, a rhannau eraill o'r system, y bydd angen ei defnyddio mewn ffordd amserol, ddeallus a chefnogol.

Mewn cyferbyniad â hynny, y **system atebolrwydd** yw'r rhwyd ddiogelwch i'w defnyddio pan na fydd y prosesau gwerthuso a gwella yn gweithio'n effeithiol. Ni ddylai lywio gweithgarwch gwella ysgolion, ond dylai sicrhau y caiff problemau eu nodi a'u datrys.

---

[1] Cyhoeddwyd o dan adran 10 o Ddeddf Addysg 1996.
[2] Mae'r canllawiau hyn yn defnyddio'r ymadrodd ‘cynllunio gwelliannau'; deellir bod iddo'r un ystyr â'r ymadrodd ‘cynllunio datblygiad'.
[3] Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at Gynlluniau Datblygu Ysgolion, sy'n gyson â Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Ysgolion 2014. Mae i'r term ‘Cynllun Datblygu Ysgol' yr un ystyr â'r term ‘Cynllun Gwella Ysgol'.

Felly, ochr yn ochr â'r rolau gwella a chymorth a gyflawnir gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, mae angen bod gan y system drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd democrataidd effeithiol. Yn yr un modd, bydd rôl Estyn wrth gynnal arolygiadau rheolaidd, cyson, cynhwysfawr a chywir o ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn hollbwysig er mwyn sicrhau atebolrwydd cadarn o fewn y system.

Un agwedd bwysig ar wella ac atebolrwydd yw eglurder a dealltwriaeth mewn perthynas â **rolau a chyfrifoldebau**. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod pwysigrwydd seilwaith gwella ysgolion effeithiol, fel dylanwad allweddol i leihau amrywiad yn ansawdd y dysgu a'r addysgu er mwyn helpu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion.

Felly, mae'r canllawiau hyn yn cynnig pwynt cyfeirio newydd i ysgolion, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, consortia rhanbarthol ac Estyn, gan amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl ganddynt wrth gyfrannu at wella ysgolion, yng nghyd-destun eu dyletswyddau cyfreithiol ehangach. Mae'n hanfodol bod ysgolion, yn enwedig y rhai y mae angen mwy o gymorth arnynt, yn gallu cael cymorth effeithiol gan gymheiriaid, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol, er mwyn gwella mewn ffordd gynaliadwy.

Yn gyffredinol, nod y canllawiau yw:

- cefnogi egwyddorion ac arferion y cwricwlwm newydd, a chreu'r system a'r newidiadau diwylliannol sylweddol sy'n angenrheidiol er mwyn i'r cwricwlwm newydd lwyddo, gan helpu i godi safonau i bawb;
- datblygu ac annog diwylliant o wella'n barhaus ym mhob ysgol;
- bod yn sail i'r gwaith parhaus o ddatblygu'r system hunanwella;
- cefnogi cydweithio rhwng ysgolion, yn hytrach na chystadleuaeth;
- canolbwyntio gwaith gwerthuso a gwella ysgolion ar amrywiaeth ehangach o dystiolaeth, sy'n rhoi darlun gwell o'r profiad dysgu cyfan, cynnydd dysgwyr a llesiant;
- egluro sut y dylai'r system atebolrwydd helpu i godi safonau, heb gael effaith negyddol ar werthuso a gwella;
- egluro rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n rhan o'r gwaith o helpu i wella ysgolion.

Yn y pen draw, drwy roi'r cwricwlwm newydd ar waith yn llwyddiannus, wedi'i ategu gan drefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd effeithiol a chyson, y byddwn yn codi safonau i bawb ac yn helpu i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a'u cyfoedion.

Mae '*cenhadaeth ein cenedl'* wedi cael ei rhoi ar waith yn unol â'r pum egwyddor ar gyfer gweithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n ceisio cefnogi amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Bydd trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd effeithiol a chyson hefyd yn cyfrannu at y nodau llesiant a nodir yn Neddf 2015 ac, yn arbennig Cymru lewyrchus, fwy cyfartal ac iachach.


Bydd system hunanwella, sy'n galluogi ysgolion i ganolbwyntio ar amrywiaeth ehangach o dystiolaeth yn eu gwaith gwerthuso a gwella, hefyd yn eu helpu a'u

hannog i ystyried sut y gallant gyfrannu at y nodau llesiant wrth ddylunio eu cwricwlwm, ei fabwysiadu a'i roi ar waith, ac wrth ennyn diddordeb dysgwyr. Bydd hyn yn fwyfwy pwysig wrth i ysgolion ymgorffori dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a lles.

Drwy gyhoeddi canllawiau gwella ysgolion anstatudol ar wahân nawr, rydym yn rhoi amser i ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Estyn ac awdurdodau esgobaethol brofi'r dulliau gwella ysgolion ac atebolrwydd, a newid ac ymgorffori arferion i gefnogi'r broses o newid i'r cwricwlwm newydd, yn barod ar gyfer mis Medi 2022.

Ein bwriad yw diweddaru'r canllawiau, gan adeiladau ar yr hyn a ddysgir yn 2021/22, a'u cyhoeddi fel canllawiau statudol a ddaw i rym ym mis Medi 2022, ochr yn ochr â'r cwricwlwm newydd.

## Fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd



**Beth yw gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer pob agwedd ar y fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd?**

### A) Gwybodaeth a thystiolaeth

Amrywiaeth eang o wybodaeth berthnasol ac amserol o ansawdd da sy'n sail i bob agwedd ar y fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd. Fe'i defnyddir at dri diben: gwella, atebolrwydd a thryloywder.

Er mwyn gwella, bydd ysgolion yn defnyddio'r amrywiaeth ehangaf a chyfoethocaf posibl o dystiolaeth sydd ar gael i lywio eu gwaith hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau yn eu cyd-destun eu hunain.

Drwy ddefnyddio tystiolaeth mewn ffordd ddeallus a soffistigedig, yn seiliedig ar ddulliau trwyadl sy'n seiliedig ar ymholi, gall ysgolion nodi eu cryfderau a meysydd i'w datblygu yn gywir fel sail ar gyfer gwella mewn ffordd gynaliadwy.

### B) Gwerthuso a gwella

1) Hunanwerthuso

Bydd ysgolion yn hunanwerthuso yn onest ac yn drylwyr, drwy ddadansoddi'r dystiolaeth sydd ar gael yn drwyadl ac yn seiliedig ar ymholi, fel rhan o ddiwylliant o wella'n barhaus.

Caiff y gymuned ysgol gyfan gyfle i gyfrannu'n briodol at y broses.

2) Blaenoriaethau gwella a chynllun datblygu ysgol

Bydd ysgolion yn nodi blaenoriaethau gwella clir a dichonadwy o ganlyniad i brosesau hunanwerthuso effeithiol.

Caiff blaenoriaethau gwella eu dwyn ynghyd mewn un cynllun datblygu ysgol strategol.

3) Cymorth, cydweithio a gwella

Gan ddechrau gyda hunanwerthusiadau a chynlluniau datblygu ysgolion, bydd consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cytuno gyda'r ysgol ar y cymorth ychwanegol sydd ei angen arni i wella a meithrin ei gallu ei hun.

Drwy ymgysylltu ag ysgolion, bydd consortia rhanbarthol hefyd yn nodi ble mae gan ysgolion gryfderau a gallu i helpu ysgolion eraill yn y rhanbarth i wella.

### C) Atebolrwydd

1) Atebolrwydd democrataidd

Cyrff llywodraethu yw cyrff atebol eu hysgolion. Felly, nhw sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth strategol eu hysgolion, am eu llywodraethu'n effeithiol ac, yn y pen draw, am lywio gwelliannau yn eu hysgolion er budd y dysgwyr.

Mae gan awdurdodau lleol y pŵer i ymyrryd yn achos ‘ysgolion sy'n achosi pryder’. Fydd bynnag, i'r mwyafrif o ysgolion, dylai cyrff llywodraethu fod yn rhydd i oruchwylio'r broses

gwerthuso a gwella yn eu hysgolion, wedi'u cefnogi gan gyngor, adnoddau a gwasanaethau gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

Yn ogystal ag eglurder ynglŷn â phwy sy'n atebol, ceir diwylliant o gyfrifoldeb cyfunol am ansawdd yr addysg a ddarperir i bob plentyn a pherson ifanc.

2) Arolygu

Caiff ysgolion eu harolygu'n fwy rheolaidd gan Estyn. Bydd arolygiadau'n rhoi gwerthusiadau teg a thrwyadl o ansawdd arweinyddiaeth, dysgu ac addysgu yn yr ysgol, gan gynnwys y cwricwlwm a llesiant athrawon a disgyblion.

Bydd adroddiadau arolygu yn cynnwys digon o naratif esboniadol am berfformiad ysgolion, gan gefnogi gwaith cynllunio gwelliannau ysgolion mewn ymateb i arolygiadau, heb gynnwys dyfarniadau crynodol.

## Gwybodaeth a thystiolaeth

Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r egwyddorion allweddol sy'n penderfynu sut y caiff gwybodaeth ei defnyddio at wahanol ddibenion ac ar wahanol haenau o'r system addysg.[4]

Dyma'r tri phrif ddiben ar gyfer defnyddio gwybodaeth yn y system newydd. Yn aml, bydd gwahanol fathau a lefelau o wybodaeth yn berthnasol ac yn briodol i'r gwahanol ddibenion.

**Gwella –** er budd y dysgwr. Bydd amrywiaeth eang o wybodaeth yn cefnogi trefniadau hunanwerthuso a gwella effeithiol ar bob haen yn y system. Ar lefel ysgol, bydd yn helpu ysgolion i wella'n barhaus a rhoi'r addysg orau posibl i bob dysgwr. Felly, bydd yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r ysgol gyfan, yn ogystal â gwybodaeth ar lefel gyfunol ac ar lefel disgyblion unigol. Ar haenau eraill y system, caiff amrywiaeth eang o wybodaeth ei defnyddio er mwyn helpu i hunanwerthuso'r ffyrdd y caiff gwasanaethau eu darparu, a'u gwella'n barhaus, i gefnogi'r system addysg.

**Atebolrwydd –** at ddibenion llywodraethu. Bydd y wybodaeth sydd ar gael ac a gaiff ei defnyddio at y diben hwn yn helpu cyrff llywodraethu, awdurdodau lleol ac esgobaethol a chonsortia rhanbarthol i oruchwylio ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan eu sefydliadau eu hunain a, thrwy wneud hynny, gyflawni eu swyddogaethau atebolrwydd democrataidd. Er na fydd angen i'r holl wybodaeth a ddefnyddir i lywio prosesau atebolrwydd fod ar gael i'r cyhoedd, byddem yn disgwyl hynny yn achos y canlyniadau, er enghraifft, drwy adroddiadau cyrff llywodraethu neu gofnodion pwyllgorau craffu awdurdodau lleol.

**Tryloywder** – er budd y dinesydd cyffredin, drwy ddangos pa mor dda y mae cyrff unigol a'r system yn gwneud. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth ar lefel genedlaethol (e.e. data PISA), yn ogystal â rhywfaint o wybodaeth ar lefel is-genedlaethol ac ar lefel ysgol (e.e. canlyniadau arolygiadau Estyn), a bydd y wybodaeth hon ar gael yn rhwydd. Dylai hyn feithrin a chynnal hyder y cyhoedd yn y system addysg yng Nghymru.

O dan bob un o'r prif ddibenion hyn ar gyfer gwybodaeth, nod Llywodraeth Cymru yw:

- Cynyddu'r defnydd o'r amrywiaeth ehangaf a chyfoethocaf posibl o wybodaeth i lywio gwaith hunanwerthuso a gwella yng nghyd-destun ysgolion eu hunain.
- Egluro'r ffordd y caiff gwybodaeth ei defnyddio at ddibenion atebolrwydd, fel na fydd hyn yn atal ysgolion rhag gwella nac yn arwain at ymddygiadau negyddol;
- Ehangu'r amrywiaeth o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am ysgolion a'r system ehangach, a gwella ansawdd y wybodaeth honno, er mwyn cynyddu tryloywder a hyder y cyhoedd;
- Gosod disgwyliadau clir o ran perchenogaeth gwybodaeth a'r ffyrdd y caiff ei defnyddio.

Er y bydd y nodau uniongyrchol yn amrywio o bosibl, dylai'r tri diben gyfrannu at wella profiadau a deilliannau dysgu disgyblion yn y pen draw.

[4] Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwaith ymchwil annibynnol, a fydd yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, i ystyried rhai o'r manylion ynglŷn â pha wybodaeth ychwanegol neu wahanol a ddylai gael ei defnyddio yng nghyd-destun y dull gweithredu hwn.

***Beth mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, consortia rhanbarthol ac Estyn ei wneud?***

Wrth ddefnyddio gwybodaeth, dylai ysgolion, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol a chonsortia rhanbarthol wneud y canlynol:

- Dibynnu llai ar ffyrdd cyfyngedig o fesur cyrhaeddiad myfyrwyr i werthuso ysgolion.
- Defnyddio dull cytbwys sy'n dibynnu ar set gydlynol a chynhwysfawr o wybodaeth ansoddol a meintiol, sy'n gyson â'r cwricwlwm newydd, mewn ffordd nad yw'n hierarchaidd. Bydd y wybodaeth hon yn unigryw i bob ysgol.
- Sicrhau na chaiff sylw arweinwyr ysgolion, athrawon a staff cymorth ei dynnu oddi wrth eu gwaith gyda dysgwyr i gasglu a chadw tystiolaeth, sy'n aml yn helaeth ac yn fwy nag sydd ei angen, er mwyn bodloni gwahanol ofynion.

Dylai ysgolion wneud y canlynol:

- Defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth i edrych ar gynnydd yr holl ddisgyblion a'r systemau sy'n eu cefnogi, er mwyn llunio barn gyfannol ar gynnydd dysgwyr.
- Defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth o wahanol fathau, sy'n ymdrin ag ehangder gweithgarwch ysgol – gan gynnwys cynnydd dysgwyr, llesiant a gwireddu'r pedwar diben – i lywio gwaith hunanwerthuso (yn gyson â'r egwyddorion yn y bennod nesaf)
- Dewis y wybodaeth a ddefnyddir i hunanwerthuso yn dibynnu ar eu cyd-destun, eu hanghenion a'u blaenoriaethau eu hunain.
- Ystyried yn ofalus, ac yn eu cyd-destun, y ffordd y caiff gwybodaeth gymharol ei defnyddio, ac ystyried sut y gall helpu ysgolion i gydweithio mwy a rhannu arferion effeithiol.
- Defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt yn effeithiol at ddibenion hunanwerthuso, yn ogystal â defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth sydd wedi cael ei darparu iddynt neu y maent wedi cael gafael arni.

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, ac awdurdodau esgobaethol (lle y bo'n briodol), weithio mewn partneriaeth i wneud y canlynol:

- Sicrhau bod unrhyw wybodaeth sydd ganddynt a fyddai'n helpu ysgolion i hunanwerthuso (e.e. dadansoddiadau presenoldeb gan yr awdurdod lleol) ar gael i ysgolion, fel rhan o ddiwylliant o weithio mewn partneriaeth.
- Rhannu gwybodaeth berthnasol am ysgolion â'i gilydd, gan atgyfnerthu eu partneriaeth broffesiynol.
- Ystyried tystiolaeth a gwybodaeth ar lefel ysgol er mwyn:
    - helpu i benderfynu pa gymorth sydd ei angen ar ysgolion a'u gallu i helpu eraill;
    - cyfrannu at eu gwaith eu hunain o hunanwerthuso eu gwasanaethau i gefnogi ysgolion (e.e. cymorth uniongyrchol; dysgu proffesiynol; defnyddio pwerau ymyrryd). Dylai hyn, yn ei dro, lywio adolygiadau cynghorau o'u perfformiad ar lefel gorfforaethol, strategol.

Dylai Estyn sicrhau bod ei fframwaith a'i threfniadau arolygu yn gyson â'r egwyddorion a'r disgwyliadau mewn perthynas â defnyddio gwybodaeth a nodir yn y canllawiau hyn.

## Defnyddio gwybodaeth asesu dysgwyr

Ni ddylid defnyddio gwybodaeth asesu dysgwyr at ddibenion atebolrwydd. Diben asesu yw helpu dysgwyr unigol i wneud cynnydd. Felly, ni chaiff awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gasglu a chydgrynhoi data lefel ysgol na chreu trefniadau lleol penodol ar gyfer casglu gwybodaeth ar lefel disgyblion unigol.

Fodd bynnag, dylai gwybodaeth o drefniadau asesu ysgolion lywio eu trefniadau hunanwerthuso ac arwain gwelliannau yn y dysgu a'r addysgu. Bydd hefyd yn cefnogi trafodaethau o fewn clystyrau a rhwydweithiau ehangach, lle y bo'n briodol, er mwyn datblygu dulliau gweithredu cydweithredol mewn perthynas â chynnydd dysgwyr yn y cwricwlwm newydd.

Er enghraifft, dylai gwybodaeth asesu alluogi ymarferwyr ac arweinwyr yn yr ysgol i ddeall a yw gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwyliedig, ac ystyried unrhyw fwlch rhwng dysgwyr difreintiedig a'u cyfoedion. Dylid defnyddio'r gwaith dadansoddi hwn i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yng nghwricwlwm yr ysgol ac mewn arferion addysgu, gan gyfrannu at hunanwerthuso a gwella'n barhaus.

Er na ddylid defnyddio gwybodaeth asesu mewn adroddiadau allanol ac at ddibenion atebolrwydd, mae ei defnyddio'n effeithiol er mwyn helpu dysgwyr i wneud cynnydd a helpu i wella arferion addysgu yn un o gyfrifoldebau proffesiynol craidd staff addysgu ysgol. Felly, dylai penaethiaid ddefnyddio'r canllawiau asesu fel sail ar gyfer trafodaethau proffesiynol a dysgu yn eu hysgolion.

Mae penaethiaid a chyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yn gyfrifol am roi'r canllawiau asesu ar waith.

## Data arholiadau allanol

Er mwyn adlewyrchu'r cwricwlwm newydd a diwallu anghenion dysgwyr yn y dyfodol, mae cymwysterau i ddysgwyr 14-16 oed yn cael eu hadolygu a'u diwygio. Bydd y cymwysterau newydd ar gael i'w haddysgu gyntaf o 2025 ymlaen, gyda'r dyfarniadau cyntaf yn 2027. Er mwyn datblygu'r ddarpariaeth cymwysterau i ddysgwyr 14-16 oed, mae Cymwysterau Cymru yn cynnal cyfres o ymgynghoriadau cyhoeddus rhwng 2019 a 2022.

Mae canlyniadau cymwysterau allanol annibynnol o ddiddordeb dilys i'r cyhoedd. Felly, maent wedi cael eu cynnwys yn rheolaidd yn yr amrywiaeth o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am ysgolion, a bydd hynny'n parhau. Er tryloywder y gwneir hyn, ac nid er atebolrwydd (fel yr amlinellir yn y canllawiau hyn), er bod pobl wedi meddwl a gweithredu'n wahanol yn y gorffennol.

Mae'r data hyn wedi cael eu disgrifio'n flaenorol fel mesurau perfformiad ysgolion. Mewn gwirionedd, data am un agwedd ar berfformiad ysgol yw'r rhain – perfformiad carfanau penodol o ddysgwyr ysgol mewn arholiadau allanol – ac ni ellir eu deall na'u dadansoddi ar eu pen eu hunain. Felly, at ddibenion y canllawiau hyn, byddwn yn eu disgrifio fel ‘data arholiadau allanol’.

Mae dangosyddion arholiadau allanol a gyhoeddwyd wedi'u bwriadu ar gyfer diben penodol, sef cyfleu data mewn ffordd sy'n briodol ar gyfer hunanwerthuso ac fel man cychwyn ar gyfer gwaith dadansoddi a chynllunio. Felly, mae'r wybodaeth yn gyfyngedig o fwriad o ran yr hyn y gall ei gyfleu. Ni ddylid ei defnyddio ar ei phen ei hun nac allan o gyd-destun, na'i

chyflwyno fel tystiolaeth o ba mor effeithiol yw ysgol. Fel hyn, mae'r wybodaeth yn ddefnyddiol ar gyfer hunanwerthuso, ond ni ddylid ei defnyddio ar ei phen ei hun, boed at y diben hwn nac at ddibenion atebolrwydd.

Bydd achosion lle y bydd data arholiadau allanol yn berthnasol at ddibenion atebolrwydd. Os bydd ysgolion yn methu defnyddio data arholiadau allanol, wedi'u trionglu a'u rhoi mewn cyd-destun yn briodol, i hunanwerthuso a gwella, yna gall fod angen cymorth arnynt i wneud hynny yn y lle cyntaf; ac, yn y pen draw, gael eu dwyn i gyfrif gan eu corff llywodraethu a/neu Estyn.

Fodd bynnag, gall defnyddio data arholiadau allanol, allan o'u cyd-destun, at ddibenion atebolrwydd arwain at ymddygiadau a dewisiadau croes gan ysgolion nad ydynt o reidrwydd er budd pennaf y dysgwyr. Yn lle hynny, mae'n bwysig i ysgolion, cyrff llywodraethu, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ystyried y polisi ehangach a bwriadau'r cwricwlwm newydd sy'n sail i ddata a mesurau a gyhoeddwyd, ac ymwneud â nhw. Yn arbennig, dylai ysgolion fod yn ymwybodol o'r angen i gynnig cwricwlwm eang a chytbwys a sicrhau mai'r cynnydd a wneir gan bob dysgwr yw eu blaenoriaeth.

### Gwybodaeth er tryloywder

Mae gwybodaeth am ysgolion o gryn ddiddordeb i'r cyhoedd. Er tryloywder y caiff gwybodaeth ei rhoi i'r cyhoedd, ac nid er atebolrwydd, er bod y sector ysgolion wedi meddwl fel arall yn aml. Fel y nodir yn y canllawiau hyn, proses sy'n seiliedig ar lywodraethu effeithiol o fewn ysgolion, craffu democrataidd ac arolygu yw atebolrwydd, ac nid rhyddhau gwybodaeth i'r cyhoedd yn unig. Nid yw'r ffaith bod yr un wybodaeth yn cael ei defnyddio at sawl diben wedi helpu i osgoi'r dryswch rhwng tryloywder ac atebolrwydd.

#### *Ysgolion*

Dylai gwybodaeth am ysgolion gael ei darparu i'r cyhoedd gan: yr ysgolion eu hunain (e.e. ar eu gwefannau ac mewn prosbectysau, adroddiadau blynyddol llywodraethwyr a chynlluniau datblygu ysgolion); awdurdodau lleol (e.e. mewn prosbectysau ysgolion cyfansawdd); awdurdodau esgobaethol (e.e. adroddiadau arolygu adran 50); Llywodraeth Cymru (e.e. mewn Ystadegau Swyddogol ac ar wefan Fy Ysgol Leol); ac Estyn (e.e. mewn adroddiadau arolygu).

Dylai'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd alluogi pobl i ddeall a gwerthfawrogi cyd-destun ysgol. Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod set gyson o wybodaeth gyd-destunol ar gael am ddysgwyr (e.e. nodweddion o ran cydraddoldeb, cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim, anghenion dysgu ychwanegol, categori ieithyddol yr ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gweithrediadau (e.e. niferoedd athrawon, cymhareb disgybl-athro, cyllideb fesul disgybl) ysgolion. Dylai hyn helpu i ystyried gwybodaeth gyd-destunol ochr yn ochr â gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr.

Mae canlyniad proses hunanwerthuso barhaus ysgol ar gyfer gwella'n barhaus yn cynnig tryloywder mwy ystyrlon ynglŷn â chryfderau a blaenoriaethau gwella, a gaiff eu hadlewyrchu yng nghynllun datblygu'r ysgol, na data arholiadau allan o gyd-destun. Er mwyn helpu i gynyddu hyder yn yr ysgol a'i chynllun datblygu, ac ymroddiad iddynt, dylai'r ysgol gyhoeddi'r copi cryno ar ei gwefan (gweler ‘Crynodeb o flaenoriaethau gwella a chynllun datblygu’).

Fel hyn, bydd rhieni a dysgwyr yn gallu gweld gwybodaeth safonedig sydd ar gael ar gyfer pob ysgol (e.e. gwybodaeth gyd-destunol a data arholiadau allanol), ynghyd â gwybodaeth

sy'n benodol i'w hysgol (e.e. adroddiadau Estyn a chynlluniau datblygu cryno). Yn bwysig ddigon, nid yn unig y dylai rhieni a dysgwyr dderbyn gwybodaeth am eu hysgol yn oddefol, ond dylent hefyd allu cymryd rhan ym mhrosesau gwerthuso a gwella ysgolion eu hunain.

***Awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol***

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd sy'n berthnasol i'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt i gefnogi ysgolion a dysgwyr. Ni ddylai hyn fod yn seiliedig ar gydgrynoadau o wybodaeth ar lefel ysgol.

Yn yr un modd â chynlluniau datblygu ysgolion, dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gyhoeddi eu cynlluniau darparu gwasanaethau, gan y bydd y rhain yn rhoi gwybodaeth fwy ystyrlon i'r cyhoedd am eu cryfderau a'u blaenoriaethau gwella, mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Dylent hefyd gyhoeddi cofnodion cyfarfodydd eu Prif Gynghorau a'u Pwyllgorau Craffu (yn achos awdurdodau lleol) a chyfarfodydd eu Cyd-bwyllgorau / Byrddau Gweithredol (yn achos consortia rhanbarthol), fel cofnod cyhoeddus o'u trefniadau atebolrwydd sy'n ymwneud ag ysgolion a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu iddynt. Yn yr un modd, rhaid i benderfyniadau byrddau gweithredol awdurdodau lleol, eu pwyllgorau ac aelodau unigol o'r bwrdd gweithredol gael eu cyhoeddi.

***Llywodraeth Cymru***

Cyhoeddir gwybodaeth hefyd ar lefel genedlaethol sy'n berthnasol i effeithiolrwydd y system addysg yng Nghymru a pholisïau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfranogiad Cymru yn PISA, adroddiad blynyddol ac adolygiadau thematig Estyn, a gwerthusiadau annibynnol o ddiwygiadau polisi (e.e. gan yr OECD).

## Hunanwerthuso er mwyn gwella'n barhaus

***Beth yw gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rôl hunanwerthuso yn y fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd?***

- Bydd pob ysgol wedi rhoi trefniadau hunanwerthuso gonest a chadarn sy'n seiliedig ar ymholi ar waith, gan adeiladu ar yr amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth sydd ar gael, fel rhan o'i phroses wella strategol.

- Bydd y gymuned ysgol gyfan – dysgwyr, athrawon, staff cymorth, llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned leol – yn cyfrannu at y broses.

- Drwy hunanwerthuso i safon uchel, gan ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar ymholi, bydd ysgolion yn datblygu eu gweithgarwch dysgu ac addysgu ymhellach er mwyn sicrhau eu bod yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd yn effeithiol.

- Bydd hunanwerthuso hefyd yn nodi cryfderau ysgol, gan ei galluogi i gyfrannu at wella'r system gyfan.

- Bydd pob rhan o'r system ysgolion yn gweld hunanwerthuso fel dull o wella ysgolion unigol a'r system ysgolion ehangach, yn hytrach na fel ymarfer cydymffurfio o fewn system atebolrwydd hollgynhwysol.

***Beth mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol a chonsortia rhanbarthol ei wneud?***

Dylai ysgolion ddefnyddio trefniadau hunanwerthuso i wneud y canlynol:

- gwerthuso eu perfformiad, gan ystyried pob agwedd ar weithrediadau ysgolion;
- llywio gwaith cynllunio gwelliannau ysgolion – gan gynnwys blaenoriaethau a chamau gweithredu – a'u prosesau gwella;
- cefnogi gwelliannau parhaus o ran dysgu ac addysgu, ac arweinyddiaeth, yn hytrach nag atebion sydyn byrdymor;
- nodi cryfderau i'w rhannu ag eraill;
- hyrwyddo gweithgarwch myfyrio a thrafodaethau proffesiynol;
- llywio gweithgarwch dysgu proffesiynol.

Dylai ysgolion benderfynu pa agweddau ar eu gweithrediadau y byddant yn eu gwerthuso'n fanwl. (Gellir defnyddio'r cwestiynau trafod, sy'n rhan o'r adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol, i gefnogi ysgolion yn y broses hon.)[5] Ymhlith y meysydd y dylent eu hystyried wrth wneud hynny mae:

- Gweledigaeth ac arweinyddiaeth
    - Y gallu i arwain (gan gynnwys y corff llywodraethu)
    - Gwerthusiadau o effaith strategaethau gwella sydd eisoes ar waith, a'r ffordd y cânt eu defnyddio
    - Gwerthusiadau o effaith cymorth a roddir, a'r ffordd y caiff ei ddefnyddio

[5] Gweler Atodiad B

        - Rheolaeth ariannol a'r defnydd o adnoddau;

    - Cwricwlwm
        - Rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith (yn cynnwys cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg)
        - Gwireddu'r Pedwar Diben
        - Ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned[6]
    - Dysgu ac addysgu
        - Cynnydd dysgwyr, gan gynnwys cynnydd grwpiau gwahanol, e.e. dysgwyr difreintiedig ac agored i niwed, unrhyw fylchau rhyngddynt, a cynnydd yn y Gymraeg o fewn lleoliadau ysgol nad ydynt yn rhai cyfrwng Cymraeg.
        - Adborth gan rieni a dysgwyr
        - Gallu, gweithgarwch dysgu proffesiynol a galluogrwydd y gweithlu
    - Llesiant
        - Cynnydd o ran ymgorffori dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol[7]
        - Llesiant dysgwyr
        - Llesiant staff
        - Trefniadau i ddiogelu dysgwyr

Dylai ysgolion ystyried yr egwyddorion a'r canllawiau canlynol wrth ddylunio prosesau hunanwerthuso a'u rhoi ar waith:

- Bydd hunanwerthuso ar ei fwyaf effeithiol pan fydd:
    - yn barhaus ac yn gyson â gwaith cynllunio gwelliannau fel proses integredig;
    - yn fyfyriol, yn onest ac yn gynhwysol, gan ddefnyddio dulliau trwyadl sy'n seiliedig ar ymholi ac sy'n ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau o bob rhan o'r ysgol (gan gynnwys llais y dysgwr), y gymuned ehangach a chymheiriaid;
    - yn defnyddio arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i arloesi a gwella, gan ysgogi'r broses o rannu arferion effeithiol o fewn ysgolion a rhyngddynt;
    - yn seiliedig ar amrywiaeth eang o dystiolaeth, gan ddefnyddio data mewn modd cymesur ochr yn ochr â thystiolaeth o lygad y ffynnon, i werthuso cryfderau'r ysgol ei hun a meysydd i'w datblygu a'u gwella;
    - yn cadw golwg ar gynnydd o ran cyflawni'r blaenoriaethau gwella yn rheolaidd.

- Mae dadansoddi data a gwybodaeth yn bwysig, ond ni ddylai fod yn bwysicach nag agweddau eraill ar hunanwerthuso a dulliau hunanwerthuso eraill (e.e. gwrando ar ddysgwyr; arsylwi ar addysgu). Lle y defnyddir y dull hwn, bydd ar ei fwyaf effeithiol ar gyfer hunanwerthuso a gwella pan fydd:
    - yn canolbwyntio'n glir ar gynnydd a llesiant dysgwyr;
    - yn ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth, nid dim ond un set ‘gul’ o ddata;
    - yn ystyried cyd-destun yr ysgol;
    - yn ystyried cyflawniad dysgwyr yn hytrach na'u cyrhaeddiad;
    - yn cael ei ddefnyddio i werthuso cynnydd a llesiant pob dysgwr a grŵp o ddysgwyr;
    - yn seiliedig ar asesu dibynadwy a chywir.

[6] https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Community%2520Schools%2520cy_0.pdf
[7] https://llyw.cymru/sefydlu-dull-ysgol-gyfan-o-ymdrin-ag-iechyd-lles-meddyliol

Dylai ysgolion gyfeirio at yr adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol (gweler Atodiad B) i gael arweiniad mwy ymarferol ar sut i fodloni'r disgwyliadau a nodir yn yr adran hon a sut y gellir hunanwerthuso mewn ffordd gadarn sy'n seiliedig ar ymholi.

Dylai awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol a chonsortia rhanbarthol wneud y canlynol:

- Sicrhau bod unrhyw ddata a gwybodaeth sydd ganddynt a allai gyfoethog trefniadau hunanwerthuso ysgolion ar gael i ysgolion, lle bo hynny'n briodol.
- Helpu arweinwyr a chyrff llywodraethu ysgolion i nodi meysydd lle y gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt heb fod ag ofn y bydd hyn yn cyfrif yn eu herbyn at ddibenion atebolrwydd.

Dylai consortia rhanbarthol wneud y canlynol:

- Cynghori ysgolion ar hunanwerthuso effeithiol gan ddefnyddio dulliau cadarn sy'n seiliedig ar ymholi, a rhoi cymorth i ysgolion lle bo angen (gallai hyn gynnwys helpu ysgolion i ddefnyddio'r adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol);
- Hwyluso gweithgarwch dysgu proffesiynol perthnasol;
- Hyrwyddo diwylliant o fyfyrio agored a gonest a gwerthuso er mwyn gwella.

## Crynodeb o flaenoriaethau gwella a chynllun datblygu

***Beth yw gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rôl cynllunio gwelliannau yn y fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd?***

- Bydd ysgolion yn nodi blaenoriaethau gwella clir a dichonadwy o ganlyniad i hunanwerthuso effeithiol.

- Bydd gan bob ysgol ei set unigryw ei hun o flaenoriaethau, yn seiliedig ar ei chyd-destun, ei phroses hunanwerthuso, ei hanghenion a'i thaith wella ei hun, a ddylai fod â'r nod o gael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r dysgwyr yn y pen draw.

- Caiff blaenoriaethau gwella eu dwyn ynghyd mewn un cynllun datblygu ysgol strategol, gan helpu i leihau baich gwaith, symleiddio prosesau cynllunio strategol ysgolion ac osgoi dyblygu a biwrocratiaeth ddiangen.

- Caiff blaenoriaethau gwella ysgolion, a'u cynlluniau datblygu, eu cyhoeddi ar ffurf gryno er budd dysgwyr, rhieni a rhanddeiliaid eraill. Bydd hyn yn cefnogi diwylliant lle y bydd ysgolion yn agored am y cymorth sydd ei angen arnynt a lle y bydd partneriaid yn yr haen ganol yn gweithio gydag ysgolion mewn ffordd gefnogol heb eu barnu.

***Beth mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ei wneud?***

Yn seiliedig ar y Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Ysgolion, rhaid i gyrff llywodraethu wneud y canlynol:[8]

- paratoi cynllun datblygu ysgol sy'n cwmpasu cyfnod o dair blynedd o leiaf ac sy'n barhaus.
- cynnwys y meysydd a nodir yn yr Atodlen (gweler Atodiad C) yn eu cynllun datblygu ysgol;
- diwygio'r cynllun o leiaf unwaith y flwyddyn, ac yn dilyn arolygiad gan Estyn;
- ymgynghori â'r bobl ganlynol wrth baratoi neu ddiwygio'r cynllun:
  - pennaeth yr ysgol (os nad yw'r unigolyn hwnnw'n aelod o'r corff llywodraethu);
  - disgyblion cofrestredig yn yr ysgol;
  - rhieni disgyblion cofrestredig;
  - staff yr ysgol;
  - unrhyw bersonau eraill y mae'r corff llywodraethu o'r farn y byddai'n briodol ymgynghori â nhw.
- cyhoeddi'r cynllun drwy roi copïau i bob aelod o'r corff llywodraethu a staff yr ysgol. Gallant hefyd ddewis darparu'r cynllun cyfan i rieni ar gais.

---

[8] Daeth Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Ysgolion (Cymru) 2014 i rym ym mis Medi 2014; roedd yn ofynnol i bob ysgol gydymffurfio â'r gofynion o 1 Medi 2015 ymlaen. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau cysylltiedig, sef *Cynlluniau datblygu ysgolion*, a'u bwriad oedd 'cefnogi ysgolion i ymgorffori dull cynllunio strategol cadarn i gyflawni gwelliannau yn neilliannau dysgwyr'.
Mae'r Rheoliadau mewn grym o hyd, ond mae'r canllawiau hyn yn disodli canllawiau mis Hydref 2014. Maent yn gosod gofynion y Rheoliadau hyn yng nghyd-destun y fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.

Dan oruchwyliaeth cyrff llywodraethu, dylai ysgolion hefyd wneud y canlynol:

- defnyddio eu casgliadau o drefniadau hunanwerthuso i nodi nifer hydrin o flaenoriaethau gwella penodol, sydd â'r nod o sicrhau gwelliant cynaliadwy;
- cynnwys blaenoriaethau, targedau a strategaethau manwl ar gyfer blwyddyn gyntaf cynllun datblygu'r ysgol;
- nodi blaenoriaethau a thargedau lefel uwch ar gyfer yr ail a'r drydedd flwyddyn, ac unrhyw flynyddoedd pellach;
- adnewyddu'r blaenoriaethau gwella o leiaf unwaith y flwyddyn, ond gan ystyried effaith hunanwerthuso a gwybodaeth newydd ar flaenoriaethau drwy gydol y flwyddyn;
- cynllunio camau gweithredu â ffocws pendant i sicrhau gwelliannau yn y meysydd hyn, nodi adnoddau neu gyllid angenrheidiol lle y bo'n berthnasol, cytuno ar gerrig milltir a meini prawf llwyddiant addas, a nodi sut a phryd y byddant yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd;
- ystyried sut y gallant adeiladu ar eu cryfderau presennol a dysgu o gryfderau ysgolion eraill, gan fod yn effro i gyfleoedd i gydweithio a rhannu arferion gorau.
- nodi pwy fydd yn rhoi cymorth, lle y bo angen, i roi'r gwelliannau ar waith;
- defnyddio cynllun datblygu'r ysgol i roi cyd-destun i'r broses rheoli perfformiad i'r holl staff;
- drwy drefniadau atebolrwydd y corff llywodraethu, craffu ar y blaenoriaethau gwella, y canlyniadau disgwyliedig, y cynnydd a wneir yn erbyn cynllun datblygu'r ysgol, a'r cymorth sydd ei angen i gyflawni'r blaenoriaethau, a chytuno arnynt;
- defnyddio eu prosesau hunanwerthuso i werthuso'r cynnydd a wneir yn erbyn eu blaenoriaethau gwella yn rheolaidd;
- paratoi adroddiadau clir ar y cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r flwyddyn flaenorol, a hynny o leiaf unwaith y flwyddyn.

Er mwyn cyfoethogi eu gwaith cynllunio gwelliannau ymhellach, gall ysgolion wneud y canlynol:

- cynnwys cymheiriaid yn y broses hunanwerthuso er mwyn cael safbwynt allanol ar flaenoriaethau gwella – y bydd eu hegwyddorion wedi'u nodi yn y canllawiau (gweler Atodiad D).

Dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:

- osgoi pennu blaenoriaethau cyffredin rhagnodedig ar gyfer ysgolion;
- gweithio mewn partneriaeth â'u consortia rhanbarthol, yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth o'u priod rolau wrth gefnogi ysgolion, i ymgysylltu ag ysgolion ynghylch eu cynlluniau datblygu. (Er enghraifft, os bydd gan ysgolion flaenoriaethau gwella sy'n ymwneud ag ymddygiad neu bresenoldeb, mae'n debygol y bydd yr awdurdod lleol yn cael ei gynnwys yn fwy na phetai'r ffocws ar y cwricwlwm neu ddysgu ac addysgu.)
- cytuno gydag ysgolion pa gymorth y byddant yn ei roi mewn perthynas ag adnoddau dynol, cyllid, anghenion dysgu ychwanegol (ADY), presenoldeb ac ymddygiad, adeiladau a meysydd eraill;
- rhannu unrhyw bryderon sydd ganddynt am briodoldeb blaenoriaethau gwella y mae ysgolion wedi'u nodi, neu farn ysgolion ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella blaenorol, â chyrff llywodraethu ysgolion (cyrff atebol ysgolion). Fel uchod, dylid

gwneud hyn mewn partneriaeth â'u consortia rhanbarthol, a chynnwys yr awdurdod esgobaethol lle bo hynny'n berthnasol.

Dylai consortia rhanbarthol wneud y canlynol:

- osgoi pennu blaenoriaethau cyffredin rhagnodedig ar gyfer ysgolion.
- rhoi cymorth, adborth ac arweiniad i ysgolion ar gynnwys, ansawdd ac effaith eu trefniadau hunanwerthuso, sut i nodi blaenoriaethau gwella priodol, a chynlluniau datblygu ysgolion;
- cytuno gydag ysgolion pa gymorth y byddant yn ei roi neu'n ei froceru mewn perthynas â dysgu ac addysgu, arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol, cynllunio'r cwricwlwm, ac unrhyw faes arall.
- gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol wrth ymgysylltu â'r holl ysgolion ynghylch eu cynlluniau datblygu.
- rhannu unrhyw bryderon sydd ganddynt am briodoldeb blaenoriaethau gwella y mae ysgolion wedi'u nodi, neu farn ysgolion ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella blaenorol, â chyrff llywodraethu ysgolion.

Dylai Estyn wneud y canlynol:

- dibynnu ar y trefniadau uchod ym mhob ysgol, awdurdod lleol a rhanbarth er mwyn defnyddio Cynllun Datblygu ysgolion fel gwybodaeth cyn arolygu;

Yn ychwanegol at hyn a thrwy gytuno ar y cyd, gall awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol roi nodyn byr i Estyn, ar sail eithriad, yn esbonio unrhyw faterion a all effeithio ar yr arolygiad.

**Crynodebau a gyhoeddwyd**

Rhaid i gyrff llywodraethu ddarparu copi cryno o'u cynllun datblygu ysgol drwy'r Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol.[9]

Er mwyn helpu i gynyddu hyder yn yr ysgol a'i chynllun datblygu ac ymroddiad iddynt, ac er tryloywder, dylai'r ysgol gyhoeddi'r copi cryno ar ei gwefan. Dylai'r crynodeb gynnwys:

- Blaenoriaethau lefel uchel, camau gweithredu, cerrig milltir a'r cymorth sydd wedi'i drefnu ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol
- Adroddiad ar y cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r flwyddyn flaenorol.

**Ar ôl arolygiad**

Yn dilyn arolygiad ysgol, rhaid diwygio cynllun datblygu'r ysgol i adlewyrchu adborth, canfyddiadau, argymhellion a chamau gweithredu arfaethedig yn dilyn yr arolygiad. Dylid gwneud hyn o fewn 20 diwrnod gwaith, fel y nodir yn Rheoliadau Arolygu'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Diwygiadau sy’n Ymwneud ag Arolygu Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2014, a'u

[9] Gwnaeth Rheoliad 11 o'r Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Ysgolion ddiwygio Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2001 i gynnwys darpariaeth ar gyfer hynny.

dosbarthu i'r partïon perthnasol, fel y nodir yn Neddf Addysg 2005 a Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006.

Pan fydd cynllun datblygu'r ysgol wedi'i ddiweddaru, dylid diweddaru'r crynodeb a gyhoeddir ar wefan yr ysgol hefyd.

## Cymorth, cydweithio a gwella

***Beth yw gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rôl cynllunio gwelliannau yn y fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd?***

- Gan ddechrau gyda hunanwerthusiadau a chynlluniau datblygu ysgolion, bydd consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cytuno gyda'r ysgol ar y cymorth ychwanegol sydd ei angen arni i wella a meithrin ei gallu ei hun.

- Bydd yr amrywiaeth ehangach o wybodaeth a ddefnyddir ar lefel ysgol i werthuso gwelliant a nodi blaenoriaethau, yn cefnogi consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i nodi anghenion cymorth ysgolion, yn ogystal â'u helpu i nodi eu blaenoriaethau gwella eu hunain er mwyn gwella'r gwasanaethau a ddarperir.

- Bydd cymorth amserol o ansawdd da ar gael i ysgolion gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, a hefyd gan ysgolion eraill. Caiff hyn ei wella drwy fwy o gydweithio a chyfathrebu rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

- Bydd y cymorth y cytunwyd arno a roddir i ysgolion yn cael ei ymgorffori yn eu cynlluniau datblygu, yn cynnwys crynodebau a gyhoeddwyd, gan ysgogi ysgolion i ofyn am yr help sydd ei angen arnynt a gwella tryloywder.

- Drwy ymgysylltu ag ysgolion, bydd consortia rhanbarthol hefyd yn nodi cryfderau ysgolion a'u gallu i gefnogi ysgolion eraill i wella.

***Beth mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ei wneud?***

Bydd y system gymorth a ddisgrifir isod yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Dylai'r broses gael ei datblygu ar y cyd, dylai fod yn gydweithredol, a dylai ddefnyddio dulliau gweithredu cadarn sy'n seiliedig ar ymholi, gan ddechrau gyda hunanwerthusiad a chynllun datblygu'r ysgol, ac ymateb i adborth gan ysgolion ac anghenion ysgolion unigol. (Dylai hyn hefyd helpu i sicrhau cyn lleied â phosibl o ofynion ar ysgolion o ran gwaith paratoi ychwanegol.)
- Dylid cynllunio cymorth i feithrin gallu ysgolion, gydag ysgolion yn gwella'n gynyddol dros amser; ni ddylai annog diwylliant o ddibyniaeth.
- Pwysigrwydd gwybod yn gynnar bod ysgol yn dirywio a bod angen cymorth arni, er mwyn ei hatal rhag mynd yn 'ysgol sy'n achosi pryder'.
- Bydd y cymorth a roddir i ysgolion yn gymesur ac yn hyblyg i'w hanghenion, gyda mwy o gymorth yn cael ei roi i'r ysgolion sydd ei angen fwyaf.
- Canolbwyntio ar wella safonau cyflawniad a chyrhaeddiad a gwella cynnydd dysgwyr, llesiant, dysgu, addysgu ac arweinyddiaeth.
- Hyrwyddo ac annog gweithio gyda chymheiriaid, cydweithio a chymorth rhwng ysgolion.
- Cefnogi egwyddorion yr adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol a gwaith Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu.

**Cymorth i ysgolion gan gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol**

Bydd consortia rhanbarthol yn rhoi adborth a chyngor i ysgolion ar eu trefniadau hunanwerthuso, eu heffaith ar welliant ac ar allu ysgolion i wella. Gan weithio mewn partneriaeth â'r ysgol, a defnyddio hunanwerthusiad yr ysgol fel sylfaen, bydd y consortiwm rhanbarthol a'r ysgol yn cytuno ar y cymorth penodol sydd ei angen ar yr ysgol. Nid herio'r ysgol yw rôl sylfaenol y consortia rhanbarthol yn bennaf, ond bod yn bartner proffesiynol yng ngwelliant yr ysgol, gan ddefnyddio arbenigedd a phrofiad allanol. Er y bydd elfen o her mewn unrhyw ddeialog broffesiynol, ni ddylai fod yn ffocws i'r gydberthynas.

Bydd gan ysgolion hawl i gael gweithgarwch dysgu proffesiynol gan y consortia rhanbarthol sy'n meithrin eu gallu eu hunain i wella. Bydd hyn yn debygol o gynnwys eu trefniadau hunanwerthuso, y defnydd o ddulliau monitro a gwerthuso sy'n seiliedig ar ymholi, datblygu'r cwricwlwm, a meithrin y gallu i arwain.

Bydd hefyd ganddynt hawl i gael cymorth pwrpasol ychwanegol yn seiliedig ar eu hunanwerthusiad a'u blaenoriaethau gwella, gan weithio gyda chonsortia rhanbarthol i bennu'r math o gymorth sydd ei angen, a lefel y cymorth hwnnw, mewn perthynas ag ysgolion eraill.

Ni ddylid pennu'r cymorth a roddir i ysgolion yn seiliedig ar ddyraniadau amser sefydlog na chynigion dysgu proffesiynol caeth sydd wedi'u penderfynu ymlaen llaw.

Bydd gan ysgolion hefyd hawl i gael cymorth wedi'i dargedu gan eu hawdurdodau lleol pan fo angen. Gall hyn gynnwys: cymorth mewn perthynas ag adnoddau dynol i'r corff llywodraethu ar recriwtio a chadw staff, a rheoli perfformiad; cymorth a chyngor ariannol; cyngor a chymorth arbenigol ar ADY; cymorth o ran ymddygiad a phresenoldeb ac ati.

Gan gydweithio â'r ysgol, bydd y consortiwm rhanbarthol yn gyfrifol am froceru cymorth i'r ysgol. Mae'n debygol mai'r consortiwm a'r awdurdod lleol fydd yn rhoi'r cymorth hwn, yn ogystal ag ysgolion eraill yn y rhanbarth yn seiliedig ar wybodaeth y consortiwm am eu cryfderau a'u gallu.

Wrth gwrs, gall consortia rhanbarthol hefyd froceru cymorth gan ysgolion y tu allan i'w rhanbarth, yn enwedig ar gyfer ysgolion Cyfrwng Cymraeg, ysgolion â chymeriad crefyddol, ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD). . Wrth froceru cymorth i ysgolion â chymeriad crefyddol o'r tu allan i'w rhanbarthau eu hunain, dylid hysbysu'r Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol perthnasol.

Dylai goruchwylio a broceru cydweithio rhwng ysgolion a gweithio mewn clwstwr fod yn rhan gynyddol bwysig o rôl consortia rhanbarthol mewn system hunanwella gydweithredol (gweler 'Cymorth rhwng ysgolion' isod). Bydd hefyd angen i gonsortia rhanbarthol sicrhau ansawdd y cymorth y byddant yn ei froceru i ysgolion.

Bydd yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol yn cytuno ar y rhesymeg ar gyfer yr amrywiaeth o gymorth a roddir i ysgol, a chytuno ar hyn gyda'r ysgol. Dylid integreiddio'r cymorth a roddir i ysgolion gan gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn eu cynllun datblygu ysgol, gan gysylltu â'r blaenoriaethau gwella perthnasol. Dylai hyn hefyd fod yn rhan o'r crynodeb a gyhoeddir o gynllun datblygu'r ysgol, a gyhoeddir fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr ar ei gwefan. Fel hyn, bydd dysgwyr, rhieni a'r gymuned ehangach yn gallu gweld a deall sut mae'r ysgol yn cael cymorth i wella, a chan bwy. (Bydd hefyd yn sicrhau y gall consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol fonitro effeithiolrwydd y cymorth a roddir ganddynt.)

**Cymorth rhwng ysgolion**

Un nodwedd bwysig o'r system hunanwella yw'r rhan ganolog sydd gan ysgolion ac athrawon wrth gefnogi ysgolion eraill, er mwyn lledaenu eu cryfderau ar draws y system a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella drwy gydweithio rhwng cymheiriaid. Er y gall hyn ddigwydd yn organig mewn sawl achos, drwy gydberthnasau a strwythurau sy'n bodoli eisoes, mae gan gonsortia rhanbarthol ran bwysig i'w chwarae wrth helpu i hwyluso hyn.

Dylai consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol hyrwyddo cydweithio rhwng ysgolion, gan annog system newydd o weithio ar y cyd lle mae arweinwyr ysgolion yn ystyried mai eu rôl yw gwella'r system gyfan, yn ogystal â'u sefydliad unigol.

Disgrifiodd '*Cenhadaeth ein cenedl*' sut mae angen i'r system hunanwella yng Nghymru sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol a sefydliad yn dod yn ymwybodol o'i gryfderau ei hun a'r meysydd i'w gwella ac, ar sail y wybodaeth hon, yn ceisio cymorth i wella ac yn cynnig cymorth i eraill wella. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd ysgolion unigol yn gwybod sut y gellir defnyddio eu cryfderau yn y ffordd orau i gefnogi eraill.

Felly, wrth ymgysylltu ag ysgolion, yn ogystal â broceru cymorth iddynt, bydd consortia rhanbarthol hefyd yn asesu pa gryfderau sydd gan ysgolion, ac ym mha feysydd, er mwyn rhoi cymorth i ysgolion eraill. Er mwyn gwneud hyn, dylai consortia rhanbarthol ystyried elfennau o ysgol sy'n 'Arwain', sy'n 'Gwella' neu lle mae 'Angen cymorth mwy dwys'. Fel uchod, dylid dechrau ar y gwaith hwn gyda hunanwerthusiadau ysgolion.

Dylai consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol gydnabod y continwwm rhwng y disgrifiadau hyn. Mae'r continwwm yn tybio ei bod yn debygol bod gan bob ysgol gryfderau ac arferion da i'w rhannu a'u cyfrannu at y broses o wella'r system gyfan, ac y bydd gan yr ysgolion cryfaf feysydd i'w gwella a'u datblygu. Bydd ysgolion arweiniol, yn benodol, mewn sefyllfa dda i roi cymorth cymheiriaid i eraill.

At ddiben dyrannu adnoddau mewnol, dylai consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol nodi bod ysgolion ar gontinwwm gwella ar gyfer meysydd ffocws gwahanol e.e. gallu i arwain, cynllunio'r cwricwlwm, neu ddiwylliant dysgu ac ymddygiad. Bydd hyn hefyd yn helpu i baru'r ysgolion hynny y mae angen cymorth penodol arnynt â'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i'w gynnig.

Ni fyddai'r ysgolion yn cael eu gosod mewn sefyllfa benodol yn barhaol – gallant symud pan fydd angen lefelau is neu uwch o gymorth ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn, at ddibenion gwahanol. Byddai'r model yn aml-ddimensiwn ac yn galluogi ysgolion i gael cymorth yn unol â maes penodol o angen.

O ystyried hyblygrwydd y system, ni fyddai angen i gonsortia rhanbarthol gymedroli eu proses o nodi cryfderau ysgolion a meysydd i'w datblygu ar draws rhanbarthau, ac ni ddylid cyhoeddi canlyniad y gwaith hwn ychwaith. Fodd bynnag, dylent sefydlu proses sicrhau ansawdd fewnol ar gyfer eu gwaith gwella gydag ysgolion, er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cael lefel o gymorth sy'n cyd-fynd â'u hanghenion. Dylai consortia rhanbarthol hefyd gydweithio a rhannu arferion da rhwng ei gilydd, yn unol ag egwyddorion gwerthuso a gwelliant parhaus a nodir yn y canllawiau hyn i ysgolion.

***Beth y gall ysgolion ei ddisgwyl o'r system newydd?***

Bydd pob ysgol:

- yn gymwys i gael deialog broffesiynol barhaus a chymorth gan weithiwr proffesiynol penodol yn y consortiwm rhanbarthol a all gynghori a broceru cymorth (yn cynnwys ar hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau; arweinyddiaeth; gweithredu'r cwricwlwm; a dysgu proffesiynol perthnasol arall).

- yn cynnwys yn ei chynllun datblygu ysgol yr hyn y bydd yr awdurdod lleol, y consortiwm rhanbarthol ac ysgolion eraill yn ei gynnig i'w chynorthwyo i gyflawni ei blaenoriaethau gwella.

Rhagwelir y bydd pob ysgol:

- yn meddu ar o leiaf un maes ymarfer cryf i'w rannu, ac yn tynnu sylw at hyn yn adroddiad blynyddol y corff llywodraethu;

- yn cydweithio ag ysgolion eraill mewn modd cefnogol a chydweithredol, pan fydd ganddi'r gallu i wneud hynny, er mwyn codi safonau i bob dysgwr ac ysgogi gwelliannau yn y system.

Hefyd, byddai ysgolion y mae angen cymorth mwy dwys arnynt:

- yn gymwys i gael mwy o gymorth, gan ganolbwyntio ar feysydd allweddol a nodir;

- yn cael cymorth amlasiantaethol drwy gynllun cymorth y bydd pob parti yn cytuno arno (y corff llywodraethu, yr awdurdod lleol, yr awdurdod esgobaethol lle y bo'n berthnasol, y consortiwm rhanbarthol, ac, mewn rhai achosion, Estyn a Llywodraeth Cymru);

- yn nodi'r cymorth ychwanegol yn adroddiad blynyddol y corff llywodraeth i rieni;

- yn cael ei thrafod drwy waith arolygydd cyswllt awdurdodau lleol Estyn.

Mewn ysgolion y mae angen cymorth mwy dwys arnynt, ni ddylai awdurdodau lleol leihau na newid lefelau'r cymorth a roddir ganddynt ar gyfer ADY, ymddygiad, cyllid ac adnoddau dynol heb drafod hyn a chytuno arno gyda'r corff llywodraethu.

## Ysgolion sy'n achosi pryder

Un o amcanion y canllawiau hyn yw disgrifio'r system gwerthuso, gwella a chymorth y dylai ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ei defnyddio i weithio, er mwyn atal ysgolion rhag cyrraedd y pwynt lle maent yn ‘achosi pryder’. Fodd bynnag, bydd achosion o hyd lle bydd angen i awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru ymyrryd mewn ysgolion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer ysgolion sy'n achosi pryder: ‘Ysgolion sy'n Achosi Pryder: canllawiau statudol i ysgolion ac awdurdodau lleol’ 222/217. Mae’r canllawiau yn rhoi gwybodaeth am y gofynion deddfwriaethol a'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ar gyfer ymyrryd mewn ysgolion sy’n achosi pryder, fel y nodir yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae'r canllawiau ar ysgolion sy'n achosi pryder yn disgrifio'r broses ffurfiol a'r mathau amrywiol o

ymyriadau sydd ar gael i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru pan fydd sail benodol dros ymyrryd.

Gall awdurdodau lleol benderfynu, drwy ymgysylltu ag ysgolion a chonsortia rhanbarthol ar werthuso a gwella, fod y sail dros roi hysbysiad rhybuddio wedi'i bodloni. (Bydd hyn yn cynnwys defnyddio gwybodaeth ar lefel ysgol i lywio eu barn ynghylch i ba raddau y mae cyrff llywodraethu ysgolion yn cyflawni eu dyletswyddau eu hunain yn effeithiol, ymhlith pethau eraill.) Ar y pwynt hwnnw, bydd pwerau ymyrryd a'r canllawiau yn dod yn berthnasol.

Bydd yr egwyddorion a'r prosesau a nodir yn y canllawiau hyn yn parhau i fod yn gymwys i ysgolion sy'n achosi pryder. Er enghraifft, mae ysgolion sy'n achosi pryder yn debygol iawn o gael eu dosbarthu fel ysgolion y mae ‘angen mwy o gymorth dwys’ arnynt ar gyfer rhai meysydd gweithgarwch yn y continwwm cymorth a ddisgrifir uchod.

## Atebolrwydd

***Beth yw gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rôl atebolrwydd yn y fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd?***

- Cyrff llywodraethu yw cyrff atebol eu hysgolion. Yn y rôl hon, byddant yn cymryd cyfrifoldeb am arweinyddiaeth strategol eu hysgolion, am eu llywodraethu'n effeithiol ac, yn y pen draw, am lywio gwelliannau yn eu hysgolion er budd y dysgwyr.

- I'r mwyafrif o ysgolion, dylai cyrff llywodraethu fod yn rhydd i oruchwylio'r broses gwerthuso a gwella, wedi'u cefnogi gan gyngor, adnoddau a gwasanaethau gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Fodd bynnag, pan fydd ysgolion yn achosi pryder, bydd awdurdodau lleol yn cymryd camau cyflym ac effeithiol, wedi'u cynghori a'u cefnogi gan gonsortia rhanbarthol.

- Mae atebolrwydd democrataidd mewn awdurdodau lleol (Cynghorau a Phwyllgorau Craffu) ac mewn consortia rhanbarthol (Cyd-bwyllgorau a Byrddau Cwmni) yn hanfodol i atgyfnerthu rôl yr haen ganol wrth gefnogi ysgolion ac i fonitro, herio a gwella'r gwaith a wna fel rhan o'r rôl hon.

- Yn ogystal ag eglurder ynglŷn â phwy sy'n atebol, ceir diwylliant o gyfrifoldeb cyfunol am ansawdd yr addysg a ddarperir i bob plentyn a pherson ifanc.

***Beth mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ei wneud?***

**Cyrff llywodraethu ac ysgolion[10]**

Cyrff llywodraethu ysgolion fydd yn gyfrifol am arweinyddiaeth strategol eu hysgolion. Byddant yn penderfynu ar yr hyn y maent am i'r ysgol ei gyflawni ac yn pennu'r fframwaith strategol ar gyfer hynny.

Cynllun datblygu'r ysgol, ynghyd â'r polisïau y mae'r corff llywodraethu wedi cytuno arnynt, fydd yn darparu'r fframwaith strategol ar y cyfan. Bydd cyrff llywodraethu yn monitro cynnydd ac yn adolygu fframwaith yr ysgol yn rheolaidd yng ngoleuni'r broses honno.

Ar wahân, rhaid i gyrff llywodraethu gyflwyno adroddiad blynyddol i rieni am y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn yn erbyn y fframwaith strategol, o dan Reoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011.

O ran gwerthuso a gwella yn fwy cyffredinol, dylai cyrff llywodraethu wneud y canlynol:

- defnyddio'r egwyddorion a'r dull hunanwerthuso a nodir yn y canllawiau hyn er mwyn gwerthuso eu heffeithiolrwydd, eu cryfderau a'r meysydd i'w gwella;
- sicrhau bod cynllun datblygu'r ysgol yn adlewyrchiad teg a chlir o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu;

[10] Ceir gwybodaeth fanwl am rolau a chyfrifoldebau Pwyllgorau Rheoli UCD yn y Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd yn 2014. Dylai awdurdodau lleol ystyried rôl pwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion a'r gofyniad o dan Reoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc) (Cymru) 2014 i awdurdodau lleol ddirprwyo swyddogaethau yn y rheoliadau hynny i bwyllgorau rheoli.

- cymeradwyo blaenoriaethau gwella'r ysgol a chytuno ar y disgwyliadau ar gyfer cymorth a gynigir gan yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol;
- sicrhau y caiff crynodeb o gynllun datblygu'r ysgol ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol, a'i ddiweddaru ar ôl arolygiad.

Fel y corff sy'n gyfrifol am ysgol, dylai cyrff llywodraethu wneud y canlynol:

- Monitro'r broses o gyflawni cynllun datblygu'r ysgol a chymryd camau pan fydd y cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau gwella yn anfoddhaol.
- Defnyddio cynllun datblygu'r ysgol i roi cyd-destun i'r broses rheoli perfformiad ar gyfer yr holl staff, er mwyn sicrhau bod y staff yn cymryd cyfrifoldeb am eu rôl wrth gyflawni'r cynllun.
- Herio'r pennaeth a'i ddwyn i gyfrif am berfformiad ac effeithiolrwydd cyffredinol yr ysgol.

**Awdurdodau lleol**

Yn ei rôl yn ‘cynnal’ ysgolion, bydd awdurdodau lleol yn darparu amrywiaeth o wasanaethau craidd a chymorth i ysgolion. Fel arfer, bydd hyn yn cynnwys: adnoddau dynol; cyllid; ystadau ac adeiladau; trefniadaeth ysgolion a derbyniadau i ysgolion (yn cynnwys cynllunio addysg ccyfrwng Cymraeg)[11] ADY.[12]

Pwyllgorau craffu o fewn awdurdodau lleol fydd yn goruchwylio gwaith y cyngor o ran cyflawni swyddogaethau statudol a darparu gwasanaethau ehangach. Gwneir gwaith craffu gan Aelodau etholedig nad oes ganddynt swyddi gweithredol yn y cyngor. Dylai gwaith craffu effeithiol wella prosesau gwella, atebolrwydd a thryloywder yn yr awdurdod lleol;

Yn y cyd-destun hwn, dylai Cynghorau wneud y canlynol:

- rhoi trefniadau ar waith i bennu disgwyliadau a rheoli ansawdd ac effaith unrhyw gydwasanaethau sy'n rhoi cymorth i ysgolion;
- gwneud trefniadau i roi strategaethau gwella cynaliadwy ar waith i gefnogi ysgolion, o ran darparu eu gwasanaethau uniongyrchol eu hunain ac mewn partneriaeth â'u consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol;
- defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt am berfformiad eu swyddogaeth Addysg i lywio dealltwriaeth ehangach ar lefel strategol o'r modd y maent yn gweithredu ar y cyfan, a'r modd y maent yn defnyddio eu hadnoddau ac yn cyflawni ar gyfer y bobl yn eu hardaloedd;
- defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth i fonitro a deall perfformiad ysgolion yn eu hardaloedd yn well, yn hytrach na chanolbwyntio'n rhy fanwl ar fesurau cyrhaeddiad disgyblion;
- adeiladu ar yr amrywiaeth eang hon o wybodaeth i gefnogi ysgolion a, lle y bo angen, i nodi ac ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder, gan ddefnyddio'r ystod lawn o bwerau statudol;

---

[11] Mae adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*[11] yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac yn amlinellu bod rhaid i gynllun amlinellu sut y bydd awdurdod lleol yn gwella’r modd y mae’n cynllunio’r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, ac hefyd safonau addyg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg.
[12] Mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig, y corff llywodraethu fydd yn cyflogi'r staff ac yn pennu'r meini prawf derbyn.

- peidio â rhoi pwysau ar ysgolion i wneud cynnydd byrdymor mewn deilliannau arholiadau CA4, mewn ffordd nad yw'n gynaliadwy neu nad yw er budd pob dysgwr o bosibl;
- cefnogi penaethiaid i wella eu hysgolion a meithrin gallu, gan ystyried lefel yr her. (Er enghraifft, ni ddylent roi disgwyliadau afrealistig ar arweinwyr ysgolion sydd newydd gael eu penodi mewn ysgolion lle ceir problemau hirsefydlog.)

Dylai pwyllgorau craffu wneud y canlynol:

- dwyn aelodau'r Cabinet i gyfrif am ansawdd ac effaith gwasanaethau'r Cyngor i gefnogi ysgolion;
- craffu ar waith y Cyngor mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir i gefnogi ysgolion, yn hytrach na defnyddio eu trefniadau atebolrwydd i ddwyn ysgolion i gyfrif;
- craffu ar ba mor effeithiol y mae'r awdurdod lleol yn cydweithio â'r consortiwm rhanbarthol, gan ddeall bod trefniadau atebolrwydd ar gyfer consortia rhanbarthol drwy eu Cyd-bwyllgorau neu Fyrddau Cwmni (gweler isod);
- monitro a chraffu ar y defnydd a wneir o bwerau statudol i gefnogi a gwella ysgolion sy'n achosi pryder, yn arbennig ysgolion uwchradd.
- ystyried effaith penderfyniadau i ad-drefnu ysgolion ar y broses o wella ysgolion.

**Consortia rhanbarthol**

Mae strwythurau llywodraethu consortia rhanbarthol yn cynnwys yr awdurdodau lleol sy'n aelodau ohonynt. Felly, maent yn cyflawni gweithgareddau sy'n deillio o swyddogaethau a dyletswyddau statudol awdurdodau lleol mewn perthynas â gwella ysgolion. Er bod gan y consortia eu strwythurau llywodraethu eu hunain, maent yn atebol yn uniongyrchol i'w hawdurdodau lleol cyfansoddol drwy eu strwythur.[13]

Felly, dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol weithio mewn partneriaeth i gyflawni dyletswyddau a swyddogaethau sylfaenol awdurdodau lleol mewn perthynas ag addysg. O ystyried y dulliau atebolrwydd mewnol gwreiddiol a ddisgrifir uchod, nid oes angen i awdurdodau lleol greu prosesau ychwanegol i oruchwylio gwaith consortia rhanbarthol. Yn hytrach, dylid dwyn consortia rhanbarthol i gyfrif drwy eu strwythur llywodraethu, sy'n cynnwys Aelodau etholedig o'r awdurdodau lleol.

Dylai Cyd-bwyllgorau / Cyd-grwpiau Gweithredol consortia rhanbarthol wneud y canlynol:

- arwain a monitro gwaith consortia rhanbarthol mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir i gefnogi ysgolion, a llywio a chefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu swyddogaethau a'u dyletswyddau statudol;

---

[13] Cwmni nid-er-elw sy'n gyfyngedig drwy warant yw'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA), ac fe'i sefydlwyd gan y pum awdurdod lleol yng nghonsortiwm rhanbarthol De-ddwyrain Cymru i wella safon addysg yn y consortiwm rhanbarthol drwy ddarparu gwasanaethau i'r awdurdodau lleol a'u hysgolion. Mae aelodau bwrdd cwmni GCA sydd â'r hawl i bleidleisio yn Aelodau Cabinet o bob awdurdod lleol, ac nid ydynt yn gyfrifol am y portffolio addysg. Caiff gweithrediad GCA ei oruchwylio gan y Cyd-grŵp Gweithredol sy'n cynnwys deiliaid y Portffolio Addysg ar gyfer pob awdurdod lleol.
Caiff Consortiwm Canolbarth y De, ERW a GwE eu goruchwylio gan Gyd-bwyllgor o'u hawdurdodau lleol cyfansoddol, o dan adran 102 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Cyd-bwyllgorau yw'r cyrff sy'n gwneud penderfyniadau o fewn y consortia rhanbarthol hyn, ac Aelodau'r awdurdodau lleol (arweinwyr neu ddeiliaid portffolio addysg) sydd â hawliau pleidleisio llawn.

- monitro ac adolygu ansawdd ac amseroldeb y cyngor a roddir ganddynt i awdurdodau lleol ar y defnydd a wneir o bwerau statudol i gefnogi a gwella ysgolion sy'n achosi pryder, yn arbennig ysgolion uwchradd.

**Llywodraeth Cymru**

Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gynllun a gweithrediad y system ysgolion yng Nghymru. Un o'i phrif rolau yw cynllunio a llunio polisïau, drwy gydweithio a datblygu ar y cyd â phob haen o'r system, a hynny ar sail tystiolaeth.
Mae hefyd yn gyfrifol am gefnogi'r fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd drwy ei gweithredoedd a'i hymddygiadau. Mae hyn yn cynnwys helpu i feithrin gallu i gefnogi gwaith i wella'r system, a bod yn glir ynghylch atebolrwydd.
Er nad oes gan Lywodraeth Cymru swyddogaeth atebolrwydd uniongyrchol mewn perthynas ag ysgolion unigol, mae'r Senedd a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dwyn Gweinidogion Cymru i gyfrif, yn briodol ddigon, am berfformiad a gweithrediad cyffredinol y system ysgolion. Mae'r gwaith craffu hwn yn ffordd bwysig o gyflawni atebolrwydd democrataidd o fewn y fframwaith cyffredinol, gan wella tryloywder ar yr un pryd hefyd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal cyfarfodydd 'Gwerthuso a Gwella' bob tymor gyda chonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol (un ym mhob rhanbarth). Bydd y cyfarfodydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i holi'n ddwys a deall y modd y caiff y system gwerthuso a gwella ei gweithredu'n ymarferol, gan lywio'r hyn sydd ei angen i wella'r system gyfan. Bydd hyn hefyd yn rhoi gwybodaeth berthnasol i Lywodraeth Cymru lywio ei gwaith craffu ei hun yn y Senedd. O ystyried y gyfran uchel o ysgolion uwchradd sy'n achosi pryder, bydd pob cyfarfod yn canolbwyntio'n rhannol ar gynnydd yr ysgolion hyn ac effaith y cymorth a roddir iddynt.

Mae Atodiad A yn rhoi disgrifiad manylach o briod rolau a chyfrifoldebau ysgolion, cyrff llywodraethu, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac Estyn, yn cynnwys eu sail statudol.

## Arolygiadau a chyngor

Prif ddiben arolygiadau yw darparu gwybodaeth wrthrychol, annibynnol a diduedd. Mae'n rhan sylfaenol o atebolrwydd o fewn y system.

Ar yr un pryd, dylid defnyddio'r wybodaeth a ddarperir drwy arolygiadau ac adroddiadau arolygu at bob un o'r tri phrif ddiben gwybodaeth a ddisgrifir yn y canllawiau hyn.

- Bydd adroddiadau arolygu gwerthusol ar ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn llywio ac yn ategu gwaith **gwella** dilynol.
- Ar yr un pryd, bydd arolygiadau ac adroddiadau yn darparu tystiolaeth bwysig i gyrff llywodraethu, cynghorau awdurdodau lleol a chydbwyllgorau / byrddau cwmni consortia rhanbarthol i gyflawni eu swyddogaethau **atebolrwydd** yn eu priod sefydliadau.
- A bydd adroddiadau arolygu **tryloyw** a gyhoeddir yn rhoi gwybod i rieni a chymunedau ynghylch am berfformiad ysgolion unigol a'r system ehangach.

Rhaid i weithgarwch arolygu Estyn ystyried yr egwyddorion ar gyfer gwerthuso, gwella a'r defnydd o wybodaeth a nodir yn y canllawiau hyn. Caiff ysgolion eu barnu o fewn eu cyd-destun eu hunain a chan ddefnyddio eu trefniadau hunanwerthuso a'u cynlluniau datblygu eu hunain fel man cychwyn. Bydd ansawdd cwricwla ysgolion, cynnydd yr holl ddysgwyr a llesiant yn elfennau pwysig o bob arolygiad.

O fis Medi 2021, bydd Estyn yn cyflwyno fframwaith diwygiedig ar gyfer arolygu ysgolion a fydd yn cyd-fynd yn agos â'r ffordd y bydd ysgolion yn rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith. Yn dilyn yr argymhellion o ‘*Arolygiaeth Dysgu*’, caiff dyfarniadau crynodol eu dileu o adroddiadau arolygu. Yn rhy aml, mae prif ddyfarniadau yn gorsymleiddio ac yn cuddio meysydd a chanfyddiadau pwysig. Yn hytrach, caiff dyfarniadau crynodol eu disodli gan werthusiad manylach o waith ysgol mewn adroddiadau, gan roi gwybodaeth well i rieni, llywodraethwyr ac ysgolion am berfformiad ysgol, ei chryfderau a meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, bydd ysgolion y dyfernir eu bod o fewn categorïau statudol mesurau arbennig neu welliant sylweddol yn cael eu nodi'n glir o hyd.

Bydd blwyddyn academaidd 2021-22 yn gyfle i Estyn brofi'r fframwaith newydd a gwneud unrhyw welliannau a diwygiadau cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd ym mis Medi 2022.

Mae'n debygol y bydd fframwaith arolygu ysgolion Estyn yn parhau i ddatblygu dros amser wrth i ysgolion ddatblygu'r modd y maent yn rhoi diwygiadau'r cwricwlwm ar waith. O 2024, rydym yn rhagweld y bydd mwy o wybodaeth arolygu amser real ar gael yn y system addysg i lywio cynlluniau gwella a chymorth, er mwyn rhoi sicrwydd rheolaidd a sicrhau atebolrwydd cadarn i rieni a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys ysgolion eu hunain, ynghylch y safonau sy'n cael eu cyrraedd a'r blaenoriaethau o ran sicrhau gwelliant pellach.

Y bwriad yw y bydd Estyn yn arolygu ysgolion yn amlach o fewn cyfnod arolygu chwe blynedd o 2024, ddwywaith mewn cylch ar gyfartaledd, ar adegau a bennir gan Estyn. Bydd arolygiadau yn canolbwyntio'n fwy ar allu ysgolion i hunanwerthuso’n effeithiol a hunanwella, ac ar y modd maent yn rhoi diwygiadau'r cwricwlwm ar waith.

Bydd arolygiadau Estyn o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol hefyd yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Dylid canolbwyntio ar ansawdd ac effaith trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas ag ysgolion ac effeithiolrwydd gwasanaethau awdurdodau lleol a chonsortia i gefnogi ysgolion a dysgwyr. Bydd hyn yn cynnwys gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau atebolrwydd democrataidd wrth gefnogi ysgolion i wella.

Bydd Estyn yn parhau i lunio adroddiadau blynyddol ac adroddiadau thematig. Bydd hefyd yn llunio adroddiad ar gyflwr y genedl bob tair blynedd, a fydd yn rhoi trosolwg cenedlaethol ar rannau amrywiol o'r system addysg. Bydd y rhain ar gael i'r cyhoedd.

**Arolygiadau Adran 50 o ysgolion â chymeriad crefyddol**

Mae Deddf Addysg 2005 yn nodi ei bod yn rhaid i gorff llywodraethu unrhyw ysgol wirfoddol a gynorthwyir, ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol sefydledig yng Nghymru, y dynodwyd bod iddi gymeriad crefyddol, drefnu bod cynnwys gweithred addoli ar y cyd yr ysgol ac unrhyw addysg grefyddol enwadol a ddarperir i ddysgwyr yn cael eu hadolygu.

Rhaid i'r arolygiad adrodd ar gynnwys gweithred addoli ar y cyd yr ysgol ac unrhyw addysg grefyddol enwadol a ddarperir i ddysgwyr. Rhaid iddo hefyd adrodd ar ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr yn yr ysgol.

O ran arolygiadau gan Estyn, bydd arolygiadau adran 50 yn cyflawni swyddogaeth atebolrwydd ar gyfer ysgolion gwirfoddol ac ysgolion sefydledig yng Nghymru, er bod eu cwmpas yn llawer culach. Caiff yr adroddiadau arolygu hefyd eu defnyddio gan ysgolion fel ffynhonnell o dystiolaeth ar gyfer eu hunanwerthusiadau a'u cynlluniau ar gyfer gwella.

## Atodiad A –

## Rolau a chyfrifoldebau mewn system hunanwella

O fewn system ysgolion sy'n hunanwella, mae'n bwysig bod y cyrff gwahanol – yn bennaf ysgolion a chyrff llywodraethu, awdurdodau lleol, a chonsortia rhanbarthol – yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain, rolau a chyfrifoldebau cyrff eraill, a'r gydberthynas rhyngddynt. Heb ddealltwriaeth o'r fath, nid yw'r system yn debygol o weithredu'n effeithlon nac yn effeithiol. Hefyd, bydd mwy o debygolrwydd o wrthdaro rhwng y cyrff gwahanol, gan dynnu egni a ffocws oddi wrth y nod sylfaenol o welliant parhaus er budd y dysgwyr.

**Cyrff llywodraethu ac ysgolion**

Mae gan ysgolion rôl ganolog yn y gwaith o ysgogi gwelliannau yn ansawdd y dysgu a'r safonau a'r llesiant a gyflawnir gan bobl ifanc. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb i ysgogi eu gwelliant eu hunain drwy hunanwerthuso, rheoli perfformiad a chynllunio gwelliannau, ac am wneud y defnydd gorau o'r cymorth sydd ar gael iddynt.

Cyrff llywodraethu ysgolion sy'n gyfrifol am y gwaith o redeg eu hysgolion; ac mae Deddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu sicrhau bod eu hysgolion yn cael ei rhedeg mewn ffordd sy'n hyrwyddo safonau uchel o ran cyflawniad addysgol. Felly, mae eu rôl yn cynnwys sicrhau bod gan ysgolion brosesau effeithiol ar gyfer adolygu perfformiad mewn perthynas â'u nodau a'u hamcanion, gan nodi blaenoriaethau gwella, gweithredu a monitro cynnydd gyda'r nod o godi safonau a gwella lefelau llesiant. Dylai'r gydberthynas rhwng yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethu gefnogi'r rôl hon.

Yn gyffredinol, dylai'r corff llywodraethu gyflawni ei swyddogaethau gyda'r nod o gyflawni rôl strategol eang yn y gwaith o redeg yr ysgol.

Mae rôl strategol yn golygu mai'r corff llywodraethu sy'n penderfynu ar yr hyn y mae am i'r ysgol ei gyflawni ac sy'n pennu'r fframwaith strategol ar gyfer hynny. Dylai sefydlu'r fframwaith strategol drwy wneud y canlynol:

- pennu nodau ac amcanion i'r ysgol;
- mabwysiadu polisïau ar gyfer cyflawni'r nodau ac amcanion hynny;
- pennu targedau ar gyfer cyflawni'r nodau ac amcanion hynny;
- adolygu cynnydd tuag at gyflawni'r nodau ac amcanion.

Y pennaeth, ynghyd ag uwch aelodau eraill o'r staff, sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth, cyfeiriad a rheolaeth yr ysgol o fewn y fframwaith strategol a bennwyd gan y corff llywodraethu. Y pennaeth sy'n gyfrifol am drefniadaeth a rheolaeth fewnol yr ysgol; ac am gynghori ar fframwaith strategol y corff llywodraethu a'i roi ar waith. Yn benodol, mae penaethiaid yn llunio nodau ac amcanion, polisïau a thargedau gyda'r corff llywodraethu, er mwyn i'r corff llywodraethu ystyried eu mabwysiadu; ac yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd i'r corff llywodraethu bob tymor.

**Awdurdodau lleol**

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau eang mewn perthynas ag addysg. Mae ganddynt ddyletswydd gyffredinol i gynnal ysgolion a gynhelir perthnasol o dan adran 22 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Mae ganddynt hefyd amrywiaeth o swyddogaethau goruchwylio, sy'n cynnwys:

- Cyfrifoldeb cyffredinol am addysg yn eu hardal drwy gyfrannu at ddatblygiad ysbrydol, moesol, meddyliol a chorfforol y gymuned drwy sicrhau bod addysg gynradd ac uwchradd effeithlon ar gael i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn eu hardal. [Adran 13, Deddf Addysg 1996]
- Dyletswydd i hyrwyddo safonau uchel, a chyflawni potensial i ddysgu, wrth gyflawni eu swyddogaethau addysg. [Adran 13A, Deddf Addysg 1996]

Er mai cyrff llywodraethu sy'n gyfrifol am arwain ysgolion, awdurdodau lleol sy'n 'cynnal' ysgolion, sy'n golygu bod ganddynt fuddiant mewn sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n dda a bod ysgolion yn ardal yr awdurdod, ar y cyfan, yn cyflawni darpariaeth effeithiol ac effeithlon. Felly, dylai awdurdodau lleol gefnogi cyrff llywodraethu i arwain ysgolion drwy roi cyngor ac adnoddau.

Caiff y gydberthynas rhwng awdurdod ac ysgol ei chofnodi mewn cytundeb partneriaeth, sy'n nodi'r ffordd y bydd awdurdod lleol a chorff llywodraethu ysgol yn gweithredu i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â'r ysgol. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, yn unol â Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007, lunio cytundeb partneriaeth unigol â phob corff llywodraethu.

**Consortia rhanbarthol**

Sefydlwyd consortia rhanbarthol gan awdurdodau lleol, gydag anogaeth Llywodraeth Cymru. Eu rôl sylfaenol yw darparu gwasanaethau ar ran awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion, gan helpu i greu system ysgolion sy'n hunanwella, gyda chydweithio rhwng pob elfen o'r system wrth ei gwraidd.

Nod y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, a sefydlwyd gyntaf yn 2013, oedd arwain datblygiadau yn y system gwella ysgolion drwy ddiffinio'r gweithgareddau y byddai consortia rhanbarthol yn eu cyflawni ar ran awdurdodau lleol, yn ogystal â'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd angenrheidiol. Roedd yn cydnabod y byddai amrywiadau strwythurol a gweithredol rhwng y pedwar rhanbarth, a bod yr hyblygrwydd hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y gall consortia ddiwallu anghenion penodol eu rhanbarthau eu hunain.

Gan mai cyrff anstatudol yw consortia rhanbarthol, nid oes unrhyw swyddogaethau na dyletswyddau addysg statudol wedi'u trosglwyddo iddynt gan awdurdodau lleol. Er enghraifft, awdurdodau lleol sydd â'r ddyletswydd i hyrwyddo safonau uchel, fel y cyfeirir uchod, o hyd. Mae hyn wedi arwain at densiynau yn y system – er nad ym mhob rhanbarth o reidrwydd – a gaiff eu gwaethygu gan ddiwylliant o atebolrwydd lle mae llawer yn y fantol yr ydym yn awyddus i droi cefn arno. Nid yw hyn yn fuddiol i ysgolion nac, yn bwysicach, i blant a phobl ifanc.

Nod y canllawiau hyn yw symud y tu hwnt i'r Model Cenedlaethol er mwyn rhoi eglurder i awdurdodau lleol a rhanbarthau ynghylch eu rôl wrth gefnogi gwelliant yn ein hysgolion, yn ogystal â rhoi atebolrwydd ar waith o fewn y system.

Roedd cenhadaeth ein cenedl yn glir bod angen inni sicrhau bod pob rhan o'r system addysg yn ymrwymo i gydweithio'n effeithiol ac ymgysylltu'n onest er mwyn bod yn llwyddiannus. Er nad yw hyn yn galw am ddulliau gweithredu unffurf ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, mae'n golygu bod angen bod yn agored ac yn eglur ag ysgolion ynghylch pwy fydd yn gwneud beth, yn unol â'r egwyddorion yn y canllawiau hyn.

Gwyddom y gall gweithio mewn partneriaeth rhwng consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a phenaethiaid gael effaith bwerus ar wella ysgolion. Ond, er mwyn i bartneriaeth o'r fath lwyddo, rhaid i bob parti gydnabod swyddogaethau a chyfraniadau ei gilydd, ynghyd ag ymddiried yn ei gilydd.[14]

**Awdurdodau esgobaethol**

Mae awdurdodau esgobaethol yn goruchwylio ac yn cefnogi ysgolion â chymeriad crefyddol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu gan gydymffurfio â dysgeidiaethau a rheolaethau eu Heglwys. Maent yn cefnogi gweithgarwch dysgu proffesiynol eu hysgolion, er enghraifft mewn meysydd sy'n gysylltiedig â llesiant, ysbrydolrwydd a datblygu'r cwricwlwm. Yn ogystal, mae gan awdurdodau esgobaethol rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith o benodi llywodraethwyr sefydledig, gan roi dealltwriaeth dda iddynt o effeithiolrwydd arweinyddiaeth a llywodraethu yn eu hysgolion.

O ystyried amrywiaeth eu hymwneud ag ysgolion â chymeriad crefyddol, dylai awdurdodau esgobaethol felly eu helpu i hunanwerthuso a gwella, gan weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

**Estyn**

Mae Estyn yn un o gyrff y goron, sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, a arweinir gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae gan Estyn dri amcan.

- Darparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru drwy weithgarwch arolygu. Mae'n arolygu nifer o sectorau gwahanol, yn cynnwys ysgolion ac awdurdodau lleol.
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol drwy roi cyngor ac arweiniad i Lywodraeth Cymru ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau thematig wedi'u comisiynu;

---

[14] Mae Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn darparu dull a strwythur llywodraethu cyson i hwyluso gwaith rhanbarthol ymysg awdurdodau lleol: Cyd-bwyllgorau Corfforaethol. Yn wahanol i gonsortia rhanbarthol presennol, bydd gan Gyd-bwyllgorau Corfforaethol bersonoliaeth gyfreithiol, a fydd yn eu galluogi i gael swyddogaethau wedi'u breinio iddynt drwy ddeddfwriaeth, i gyflogi staff yn uniongyrchol ac i reoli a chynnal cyllidebau.
Mae'r Bil yn cynnig cyfle i awdurdodau lleol roi sylfaen statudol i'w trefniadau rhanbarthol presennol ar gyfer gwella ysgolion os byddant yn dymuno gwneud hynny. Mae hefyd yn eu galluogi i gynnwys gweithgareddau addysg ehangach o fewn cwmpas gwaith rhanbarthol pan fydd hynny'n cynnig manteision clir. Byddai angen i Weinidogion Cymru gytuno ar unrhyw gynigion gan awdurdodau lleol.
Bydd y Bil hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol sy'n gyfrifol am wella addysg. Byddai Cyd-bwyllgor Corfforaethol sy'n gyfrifol am wella addysg yn rhoi mwy o eglurder ynghylch atebolrwydd ar gyfer swyddogaethau gwahanol yn rhanbarthol ac yn lleol. Gallai Gweinidogion arfer y pŵer hwn er mwyn sicrhau mwy o gysondeb yn y cymorth rhanbarthol a roddir i ysgolion, yn arbennig lle y gallai hyn helpu i wella effeithiolrwydd y cymorth rhanbarthol ei hun.

Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru; a chymryd rhan mewn diwygiadau ym myd addysg a datblygu polisïau.

- Meithrin gallu i wella a chyflwyno system addysg a hyfforddiant yng Nghymru drwy dystiolaeth o arolygiadau; hyrwyddo'r broses o rannu arferion da drwy astudiaethau achos; rhannu gwybodaeth; a dathlu arferion rhagorol.

## Atodiad B

## Adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol

Mae'r adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol wedi'i ddatblygu gan ysgolion, Estyn, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yng Nghymru, gyda mewnbwn gan OECD. Mae'n rhoi amrywiaeth o egwyddorion a dulliau gweithredu i ysgolion, yn ogystal ag astudiaethau achos ac adnoddau ymarferol, i gefnogi hunanwerthusiadau effeithiol ar gyfer gwella yn unol â'r egwyddorion ehangach a nodir yn y canllawiau hyn. Anogir ysgolion i ddefnyddio'r adnodd i ddatblygu eu dulliau hunanwerthuso.

Mae'r adnodd yn dangos bod ffyrdd gwahanol y gall ysgol strwythuro ei phrosesau hunanwerthuso yn dibynnu ar ei chyd-destun ac nad oes un ffordd benodol o wneud pethau. Yn hanfodol, mae'n symud hunanwerthuso o fod yn broses a gynhelir ar gyfer cynulleidfa allanol (e.e. Estyn) i ddangos mai'r broses sy'n bwysig, gan arwain at ddeilliannau gwell i ddysgwyr, nid y ddogfennaeth.

Nid yw'r adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol wedi'i ddatblygu fel adnodd annibynnol. Mae llawer o gysylltiadau rhwng hunanwerthuso a datblygu'r cwricwlwm, addysgeg, dysgu proffesiynol a'r model ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu. Felly, bydd yr adnodd yn cefnogi ysgolion wrth iddynt ddatblygu'r cwricwlwm newydd ac wrth iddynt ddatblygu i fod yn sefydliadau sy'n dysgu

Mae hefyd yn rhoi rhagor o fanylion i gefnogi prosesau hunanwerthuso sy'n sail i'r daith ddysgu broffesiynol ac mae'n ymgorffori'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ac ar gyfer cynorthwyo addysgu drwyddo draw. Bydd prosesau effeithiol ar gyfer gwerthuso dysgu ac addysgu, sydd wrth wraidd yr adnodd, hefyd yn cefnogi ysgolion wrth iddynt gymryd rhan yn y sgwrs am addysgeg drwy'r prosiect addysgeg cenedlaethol.

Noder: Ar adeg yr ymgynghoriad, mae'r adnodd yn dal i gael ei ddatblygu ac yn destun profion beta mewn detholiad o ysgolion peilot. Caiff ei ryddhau yn raddol drwy gydol blwyddyn academaidd 2020-21, a bydd ar gael yn ehangach yn ystod haf 2021. Caiff rhagor o wybodaeth ei rhyddhau gydag anodau enghreifftiol yn ystod tymor y gwanwyn 2021.

## Atodiad C -

## Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014 – Atodlen

(https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2014/2677/schedule/made/welsh)

Cynnwys cynllun datblygu ysgol

*Blaenoriaethau gwella'r ysgol*

1.—(1) Blaenoriaethau gwella’r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol.

(2) Blaenoriaethau gwella’r ysgol ar gyfer y ddwy flynedd ysgol yn union ar ôl y flwyddyn ysgol gyfredol.

(3) Wrth osod blaenoriaethau gwella’r ysgol rhaid i’r corff llywodraethu ystyried y blaenoriaethau cenedlaethol.

*Targedau gwella’r ysgol, deilliannau disgwyliedig a strategaeth*

2. Datganiad byr yn nodi targedau gwella’r ysgol a deilliannau disgwyliedig a strategaeth y corff llywodraethu i gyflawni’r targedau hynny.

*Strategaeth datblygu proffesiynol*

3. Manylion am strategaeth y corff llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol o ran sut y bydd yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yr ysgol er mwyn cyflawni targedau gwella’r ysgol.

*Gweithio gyda'r gymuned*

4. Manylion am sut y bydd y corff llywodraethu yn ceisio cyflawni targedau gwella’r ysgol ar gyfer y flwyddyn gyfredol drwy weithio gyda—

(a) disgyblion yn yr ysgol a’u teuluoedd; a

(b) pobl sy’n byw ac yn gweithio yn yr ardal y mae’r ysgol wedi ei lleoli ynddi.

*Staff yr ysgol ac adnoddau’r ysgo*

5. Manylion am sut y bydd y corff llywodaethu yn gwneud y defnydd gorau—

(a) o staff presennol yr ysgol ac adnoddau presennol yr ysgol (gan gynnwys ei hadnoddau ariannol) er mwyn cyflawni targedau gwella’r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol;

(b) o staff yr ysgol ac adnoddau’r ysgol (gan gynnwys adnoddau ariannol) y mae’r corff llywodraethu yn rhagweld y byddant ar gael iddo er mwyn cyflawni targedau gwella’r ysgol ar gyfer y ddwy flynedd ysgol nesaf yn union ar ôl y flwyddyn ysgol gyfredol.

*Targedau blaenorol*

6. Datganiad byr yn nodi’r graddau y cafodd targedau gwella’r ysgol eu cyflawni ar gyfer y flwyddyn ysgol flaenorol gan ddechrau gyda blwyddyn ysgol 2015 i 2016 a phan na chawsant eu cyflawni’n llawn esboniad byr yn nodi’r rhesymau dros y methiant hwnnw.

## Atodiad D

## Egwyddorion adolygu gan gymheiriaid

Gweithio mewn partneriaeth ag ymarferwyr presennol a'u cynnwys ym mhroses hunanwerthuso a gwella ysgol gyda chymorth Cynghorydd Herio/Cynghorydd Gwella'r ysgol yw adolygu gan gymheiriaid. Mae'n cynnig safbwynt ychwanegol ac yn cynnwys partneriaid mewn deialog adeiladol er mwyn cefnogi gwelliant parhaus er budd y dysgwyr.

Diben adolygu gan gymheiriaid yw gwella deilliannau i bob dysgwr drwy wneud y canlynol:

- gwneud yr hunanwerthuso'n fwy cywir drwy ddefnyddio'r adnodd gwerthuso a gwella cenedlaethol
- nodi cryfderau, gwendidau a meysydd i'w gwella yn gywir
- cyfrannu at gryfhau cymorth/camau gweithredu (nodi gofynion cymorth)
- hwyluso cydweithio ym mhob rhan o'r system ysgolion
- gwella gallu arweinwyr ym mhob rhan o'r system i hunanwerthuso'n gywir.

| Mae adolygu gan gymheiriaid... | Nid yw adolygu gan gymheiriaid... |
|---|---|
| • Yn broses gydweithredol<br>• Yn werthusol, yn gefnogol ac yn ddatblygiadol<br>• Yn safbwynt allanol gan gyd-ymarferwyr<br>• Yn gyfle ar gyfer dysgu ac ymholi proffesiynol parhaus ac ystyrlon<br>• Yn broses i bob ysgol<br>• Yn rhan annatod o'r cylch gwerthuso a gwella<br>• Yn broses sy'n canolbwyntio ar gynllunio a chyflawni ar gyfer gwella<br>• Yn ymatebol i anghenion yr ysgol | • Yn broses a gaiff ei **gwneud** i'r ysgol<br>• Yn barnu<br>• Yn arolygiad<br>• Yn fodel gwella cyfarwyddiadol<br>• Wedi'i fwriadu ar gyfer nifer dethol o ysgolion<br>• Yn broses sy'n digwydd ar ei phen ei hun<br>• Yn broses fiwrocrataidd sy'n cymryd llawer o amser<br>• Yn broses sydd yr un peth i bawb |

Ceir egwyddorion allweddol pwysig ar gyfer adolygu effeithiol gan gymheiriaid:

- Mae angen i'r broses adolygu gan gymheiriaid fod yn ymrwymiad parhaus i wella arferion a systemau yn barhaus drwy gylchoedd o ymholi cydweithredol (wrth i'r system aeddfedu);
- Dylai'r broses adolygu gan gymheiriaid fod yn werthusol ond heb farnu;

- Dylai'r broses adolygu gan gymheiriaid fod yn broses gadarn a ategir gan ddeialog broffesiynol adeiladol;
- Dylai'r broses adolygu gan gymheiriaid fynd y tu hwnt i arweinwyr ysgolion a chynnwys y gymuned ysgol gyfan;
- O fewn y broses adolygu gan gymheiriaid, mae tryloywder, ymddiriedaeth a gonestrwydd yn rhwymedigaeth broffesiynol;
- Dylai pawb sy'n rhan o'r broses gydweithio â phob cyfranogwr gan deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn llawn cymhelliant ac yn gyfrifol, a chael cyfle i gyfrannu at ganlyniadau cyfunol y broses;
- Parodrwydd ac ymrwymiad i ddysgu o amrywiaeth o safbwyntiau beirniadol.

Ymddygiadau a ddisgwylir:

- Caiff y broses ei chynnal ag uniondeb ac ymddiriedaeth a dylai helpu'r ysgol i nodi ei blaenoriaethau ar gyfer gwella.
- Bydd yr holl drafodaethau yn gyfrinachol, a bydd unrhyw ddogfennau a gaiff eu creu yn eiddo i'r ysgol.
- Dylai pob partner ymuno â'r broses ag ymrwymiad i ddysgu o'r broses.